Ceir copiau pellach o'r ddogen hon oddi wrth:

Is-adran Plant a heuluoedd 1
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Efôn: 029 2082 5640
E-bost: gareth.davies2@wales.gsi.gov.uk
Gwefan: http://www.Cymru.gov.uk

ISBN: 0 7504 1

Tachwedd 2000

© Hawlfraint y Goron 2000

# CYNNWYS


| | TUDALEN |
|---|---|
| Rhagair | 1 |
| Crynodeb Gweithredol ac argymhellion allweddol | 3 |
| 1. Cyflwyniad | 6 |
| 2. Egwyddorion Craidd | 10 |
| 3. Rhaglenni'r Cynulliad ar gyfer Plant | 16 |
| 4. Llwyddo i Ganolbwyntio mewn Strategaeth a Chynllunio | 20 |
| 5. Gwrando ar Blant | 27 |
| 6. Monitro'r Strategaeth | 30 |
| Atodiad 1: Rhaglenni a blaenoriaethau cyfredol y Cynulliad | 34 |
| Atodiad 2: Y prif bryderon a fynegwyd gan blant a phobl ifanc yn ystod ymgynghori ynghylch yr ymagwedd strategol | 52 |
| Atodiad 3: Y prif negesau o gynadleddau ymgynghorol ar gyfer ymarferwyr | 54 |



# RHAGAIR

Fel y Gweinidog yn y Cynulliad sydd yn gyfrifol am blant a phobl ifanc, mae gennyf gyfrifoldeb penodol i wireddu gweledigaeth y Cynulliad o Gymru fel gwlad sy'n rhoi gwerth ar ei phlant a lle mae pobl ifanc eisiau byw, gweithio a mwynhau bywyd o ansawdd uchel. Mae'r ddogfen ymgynghorol hon yn gam pwysig tuag at y nod hwnnw.

Am y tro cyntaf, mae'r ddogfen yn disgrifio holl raglenni'r Cynulliad sy'n effeithio ar fywydau plant a phobl ifanc, yng nghyd-destun y nodau a blaenoriaethau yn ein cynllun strategol, Gwell Cymru. Ond mae hefyd yn gwneud llawer mwy na hynny. Mae'n nodi'r egwyddorion a ddylai fod yn sail i'n darpariaeth ar gyfer plant, gan gyfeirio at Gytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac mae'n seiliedig ar ddeddfwriaeth berthnasol, yn enwedig Deddf Hawliau Dynol 1998. Mae'n argymell ffordd y gall yr holl bartneriaid lleol sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc gydweithio mewn fframwaith integredig er mwyn ceisio diwallu anghenion plant yn hytrach nag anghenion darparwyr gwasanaeth. Ac mae'n canolbwyntio ar yr angen i wrando ar farn plant a phobl ifanc a rhoi ymateb.

Cafodd y fframwaith yn y tudalennau a ganlyn ei ddatblygu wrth ddefnyddio'r ymagwedd gyhoeddus ac agored i lunio polisïau a gafodd ei harloesi gan y Cynulliad. Cyn dechrau ar y gwaith o ysgrifennu hyd yn oed, bu swyddogion y Cynulliad yn ymgynghori â chynrychiolwyr o blith darparwyr gwasanaeth a phlant a phobl ifanc eu hunain mewn cyfres o gynadleddau. Un o'r negesau allweddol gan awdurdodau lleol oedd y dylid lleihau nifer grantiau penodol y Cynulliad. Rydym wedi ystyried hyn, ac yn y ddogfen hon rydym wedi cynnwys argymhellion i ddod â nifer o raglenni at ei gilydd mewn un gronfa, sef Cronfa Cynorthwyo Plant a Phobl Ifanc.

Mi wn na fydd yn hawdd i gynrychiolwyr y darparwyr gwasanaeth – gan gynnwys awdurdodau lleol, yr NHS, asiantaethau cyhoeddus eraill a'r sector gwirfoddol – oresgyn diwylliant cyfundrefnol er mwyn gweithio fel rhan o dîm dilys. Mi wn hefyd nad y ddogfen hon yw'r ateb terfynol i wella ein darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc. Nid yw'n ymarferol bosibl iddi gynnig cyfarwyddiadau manwl ar gyfer pob gwasanaeth – ac ni fyddai cyfarwyddiadau canolog yn ddymunol ychwaith. Ond mae'n cynnig fframwaith ar gyfer gwelliannau.

Mae llawer o waith i'w wneud eto; dechrau yw hyn ac nid y diwedd. Gobeithiaf eich bod yn cytuno â mi fod y gwaith a amlinellir yn y tudalennau a ganlyn yn werth ei wneud. Fel cam cyntaf, rwy'n gofyn i chi am eich barn ynghylch yr hyn sy'n cael ei argymell gennym.



Tachwedd 2000 Jane Hutt

# PLANT A PHOBL IFANC: FFRAMWAITH AR GYFER PARTNERIAETH

## CRYNODEB GWEITHREDOL

### Gweledigaeth gyffredin ar gyfer plant

1. Mae'r Cynulliad eisiau annog patrymau o arferion da a meithrin hinsawdd lle mae darparwyr gwasanaeth yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu a chyflenwi darpariaeth o safon uchel sy'n arloesol ac atebol ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'r Cynulliad yn ymrwymedig i drawsnewid y ffordd y mae darparwyr gwasanaeth yng Nghymru'n diwallu anghenion plant a phobl ifanc.

2. Mae'r Cynulliad eisiau clywed lleisiau plant a phobl ifanc, mae eisiau gwrando ar eu barn, a gofalu bod gwasanaethau'n ymateb i'w hanghenion a'u dyheadau.

### Nod y fframwaith

3. Cynlluniwyd y fframwaith hwn er mwyn cael ymagwedd newydd tuag at gynllunio a chyflenwi gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc er mwyn i'r gwasanaethau:

- cyfrannu'n effeithiol tuag at amcan cyffredin;
- ystyried a chanolbwyntio ar anghenion plant a phobl ifanc;
- fod yn seiliedig ar asesiad strategol o anghenion a blaenoriaethau ar draws ystod gyfan gweithgareddau ar lefel leol; a
- bod yn rhagweithiol a phositif.

### Egwyddorion Craidd

4. Mae'r Cynulliad o'r farn y dylai Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fod yn sail egwyddorol bob amser wrth ymdrin â phlant. Fodd bynnag, rhoddir sylw i ffactorau eraill, gan gynnwys yn arbennig Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Mae Pennod 2 yn nodi egwyddorion craidd y fframwaith a seiliwyd ar y Cytundeb.

### Ad-drefnu mecanweithiau cyllido

5. Mae Atodiad 1 yn rhoi – am y tro cyntaf – golwg gyffredinol a chydlynol ar holl ystod rhaglenni a pholisïau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru ac sydd dan arweiniad y Cynulliad. Mae hyn yn rhoi cyfle i holi ynghylch y cydbwysedd cyffredinol mewn rhaglenni cyfredol.

6. Mae angen i'r Cynulliad wella cydlyniad ei raglenni ei hun er mwyn cyfateb â'r gwelliant yn y cydlyniad lleol arfaethedig. Un o'r negesau allweddol a ddeilliodd o'r cynadleddau ymgynghorol a gafwyd gyda darparwyr yn ystod hydref 1999 oedd y dymuniad i gael llai o gynlluniau cyllido unigol. Mae'r Cynulliad yn argymell y dylid cyfuno'r cynlluniau cyllido sy'n bodoli er mwyn ffurfio cronfa newydd, sef Cronfa Cynorthwyo Plant a Phobl Ifanc, yn unol âr hyn a nodir ym Mhennod 3 y fframwaith. Mae'r Cynulliad yn bwriadu rhoi dyraniad ariannol mynegol o'r gronfa hon i bob ardal awdurdod lleol ar gyfer tair blynedd yr arolwg o wariant, a gosod targedau ar gyfer y canlyniadau sydd eu hangen.

## Llwyddo i Ganolbwyntio mewn Strategaeth a Chynllunio

7. Er mwyn gweithredu'r dyheadau am ad-drefnu, bydd angen i awdurdodau lleol, yr NHS a sefydliadau gwirfoddol weithredu'n gydlynol. Ar lefel leol y mae'r cyfle gorau i nodi bylchau a dyblygu mewn darpariaeth ac i unioni'r sefyllfa.

8. Mae'r fframwaith yn nodi tri llinyn ar gyfer llwyddo i ganolbwyntio mewn strategaeth a chynllunio:

- y swyddogaethau Strategaethau Cymunedol newydd yn Neddf Llywodraeth Leol 2000;
- fframweithiau lleol newydd Plant a Phobl Ifanc – i ddarparu arolwg cynhwysfawr o'r holl wasanaethau plant ym mhob ardal awdurdod lleol; ac
- adolygu'r gofynion am gynlluniau manwl sy'n ymwneud yn benodol â gwasanaethau a rhaglenni ar gyfer gwahanol agweddau ar wasanaethau plant, gyda'r bwriad o gyfuno a symleiddio pan fo hynny'n bosibl.

9. Byddai'r fframweithiau lleol yn:

- adlewyrchu'r cyfraniad lleol tuag at ddiwallu polisïau a blaenoriaethau *Gwell Cymru* ac, yn y dyfodol, tuag at gytundebau polisi mewn perthynas â phlant a phobl ifanc;
- pennu cyd-flaenoriaethau lleol ar gyfer awdurdodau lleol, yr NHS, CETW, Gyrfaoedd Cymru a'r sectorau gwirfoddol;
- adlewyrchu gwerthusiadau Gwerth Gorau a defnyddwyr gwasanaeth ac felly'n rhoi cyfle i gymunedau a phlant a phobl ifanc gymryd rhan;
- nodi'r cyd-destun lleol ar gyfer cynlluniau gwasanaethau, gan gynnwys y ffordd y bydd y partneriaid yn cydweithio – sut y rhoddir trefniadau yn eu lle er mwyn dod o hyd i blant a phobl ifanc sydd â phroblemau a mynd i'r afael â'r problemau hyn; a
- nodi sut y cafodd sylwadau plant a phobl ifanc eu defnyddio wrth ddatblygu a monitro'r strategaeth leol.

10. Byddai'r fframwaith lleol yn nodi, cydlynu ac adlewyrchu'r elfennau strategol y cytunwyd arnynt yn yr holl gynlluniau gwasanaethau sy'n cael eu cynhyrchu ar hyn o bryd ac sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc.

11. Bydd fframweithiau lleol cydlynol yn dibynnu ar bartneriaethau lleol cryf yn cynnwys cynrychiolwyr o'r holl grwpiau perthnasol, gan gynnwys awdurdodau lleol, yr NHS, ysgolion, sefydliadau gwirfoddol a'r plant a'r bobl ifanc eu hunain. Dylent ffurfio fframwaith ar gyfer defnyddio hyblygrwydd y bartneriaeth a'r cyllido rhwng yr NHS a'r gwasanaethau cymdeithasol, yn unol â Deddf Iechyd 1999.

12. Mae'n bosibl y bydd cynlluniau gwasanaethau unigol ar gyfer y meysydd gwasanaeth allweddol yn dal i fod yn angenrheidiol er mwyn diffinio cyflenwad gweithredol gwasanaethau, ond fe ddylai'r fframwaith lleol arfaethedig olygu gwelliant radical yng nghyd-drefniant gwasanaethau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc, os bydd yr holl bartneriaid yn cydnabod na ellir priodoli'r un o'r canlyniadau sydd eu hangen ar gyfer pobl ifanc i waith unrhyw un asiantaeth, a bod yn rhaid i wella cyfleoedd plant a phobl ifanc mewn bywyd fod yn flaenoriaeth i bawb.

## Gwrando ar Blant a Phobl Ifanc

13. Dylai'r fframwaith hwn sicrhau fod plant a phobl ifanc yn cael gwrandawiad ac yn gallu chwarae rhan weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau a phenderfynu pa wasanaethau y dylent eu derbyn. Felly, dylid cynnwys barn plant a phobl ifanc ym mholisïau a chynlluniau darparwyr gwasanaeth. Ar lefel leol y mae'n haws i blant a phobl ifanc weld canlyniad eu cyfranogiad ac, wrth iddynt gyflwyno eu strategaethau lleol, bydd disgwyl i awdurdodau fod wedi dangos fod plant a phobl ifanc ar draws yr holl amrediad, o bob cymuned a chefndir, wedi chwarae rhan wrth lunio'r strategaethau, ac ym mha fodd y gwnaethant hynny.

## Monitro'r Strategaeth – Safbwynt Cymru-gyfan

14. Er mwyn gweithredu gwell gwasanaethau i blant oddi mewn i'r fframwaith hwn, bydd angen cael strwythur ar lefel Gymru-gyfan. Mae Pennod 6 yn trafod y dewisiadau.

15. Bydd Comisiynydd Plant i Gymru, a fydd yn swydd statudol a sefydlir yn unol â Deddf Safonau Gofal 2000, yn chwarae rhan sylfaenol wrth gyflwyno safbwynt Cymru-gyfan annibynnol.

16. Mae'r Cynulliad yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol i roi sylw arbennig i'r effaith y gallai polisïau newydd ei chael ar blant a phobl ifanc.

# 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae Gwell Cymru, cynllun strategol y Cynulliad Cenedlaethol, yn nodi gweledigaeth hirdymor o Gymru fel lle sy'n:

> *rhoi gwerth ar ei blant ac yn lle y mae pobl ifanc eisiau byw, gweithio a mwynhau bywyd o ansawdd uchel ynddo; ac sy'n*
>
> *ymrwymedig i feithrin ei hunaniaeth unigryw ac amrywiol, a manteision dwyieithrwydd, tra'n edrych yn hyderus tuag allan ac yn croesawu dylanwadau diwylliannol newydd.*

Ymhlith ei werthoedd craidd, mae'n cynnwys y datganiad:

> *y dylai plant a phobl ifanc gael eu trin fel aelodau gwerthfawr o'r gymuned, gan sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u hanghenion yn cael eu hystyried wrth lunio polisïau ym mhob maes.*

Mae'r ddogfen hon yn argymell fframwaith i ddiwallu'r dyheadau hyn. Dylid ei hystyried yn gam cyntaf yn natblygiad ymarferol strategaeth ddeinamig. Yn benodol, dylai ad-drefnu'r mecanweithiau cynllunio a chyllido a argymhellir ym Mhenodau 3 a 4 gael eu hystyried yng nghyd-destun argymhellion tebyg eraill ynghylch amddifadedd cymdeithasol a chyllido gwasanaethau cymdeithasol. Dylai tegwch fod yn ganolog i weithredu'r fframwaith, a rhaid iddo fod yn effeithiol wrth ymateb i anghenion pob plentyn a pherson ifanc. Er mwyn llwyddo, rhaid cynnal y fframwaith gan ymrwymiad ar bob lefel i ffyrdd newydd o weithio integredig er mwyn gwella bywydau plant a phobl ifanc. Bydd yn hanfodol cael cydweithrediad ymhlith sefydliadau sy'n gwahaniaethu'n fawr yn eu maint a'u ffordd o weithio; a bydd angen cael gweithio tîm ar lefel leol, a hepgor teyrngarwch i sefydliadau unigol.

1.2 Mae anghenion y rhan fwyaf o blant parthed diogelwch a datblygiad yn cael eu diwallu gan eu rhieni, eu teuluoedd estynedig a gwasanaethau cyffredinol, gan gynnwys ysgolion a'r gwasanaeth iechyd. Nid yw plant eraill yn cael eu diogelu cystal: gellid eu diffinio fel plant sy'n agored i niwed, sy'n golygu y gellid rhoi eu cyfleoedd mewn bywyd yn y fantol oni weithredir i gynnig cymorth ychwanegol iddynt a'u teuluoedd. Gall plant sy'n cymdeithasu'n wael neu sydd ag anghenion addysgol arbennig berthyn i'r dosbarth hwn. Mae gan leiafrif bach o blant anghenion arbennig llawer mwy sylfaenol, ac fe'i diffinnir yn unol â'r Ddeddf Plant fel plant mewn angen. Mae'r rhain yn cynnwys plant ag anableddau, plant sydd dan ofal awdurdodau lleol a phlant sydd ar gofrestri amddiffyn plant. I raddau gwahanol, bydd y ddau grŵp olaf ag angen cymorth cymdeithasau arbenigol cymdeithasol, iechyd, addysg a gwasanaethau eraill er mwyn datblygu a ffynnu.

1.3 Ledled Cymru mae yna gyfoeth o ddarpariaeth gwasanaethau sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at gynorthwyo plant i ddatblygu eu doniau trwy gyfrwng y gwasanaethau iechyd, addysg a gwasanaethau eraill. Mae'r darparwyr yn cynnwys awdurdodau lleol, ysgolion, awdurdodau iechyd ac ymddiriedolaethau iechyd, a'r sectorau gwirfoddol a phreifat. Yn ogystal, mae yna lawer mwy o wasanaethau cyhoeddus sydd â pherthnasedd mwy cyffredinol ond sy'n cael effaith sylweddol ar fywydau plant a phobl ifanc. Oherwydd pwysau ar wasanaethau o gyfeiriad y rhai sy'n cael eu hystyried yn ddefnyddwyr allweddol, nid yw buddiannau plant yn cael cymaint o sylw ag y gallent ei gael; er enghraifft, yn yr NHS, nid yw'r gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc yn derbyn yr un sylw â rhestri aros aciwt. Ni all y fframwaith hwn ar ei ben ei hun newid agweddau dros nos, ond dylai symbylu newid.

1.4 Mae i bob gwasanaeth ei nodweddion a'i amcanion ei hun, ond mae sawl maes yn gorgyffwrdd hefyd. Ceir cydweithredu effeithiol rhwng asiantaethau ac awdurdodau mewn sawl agwedd ar wasanaethau plant; ond mewn meysydd eraill gellid gwella'r modd y mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u cyflenwi ar y cyd.

1.5 Mae arian sylweddol yn cael ei wario ar y gwasanaethau hyn yng Nghymru, ac mae llawer iawn o staff yn cyfrannu tuag atynt. Ceir sawl enghraifft o ddarpariaeth greadigol â gwasanaethau ysgogol ac effeithiol y tu hwnt sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol a pharhaol i fywydau plant yng Nghymru. Mae'r Cynulliad am weld y patrymau hyn o arferion da yn ymledu er mwyn annog datblygu gwasanaethau mewn ffordd arloesol ac atebol, a meithrin hinsawdd lle mae darparwyr gwasanaeth yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu a chyflenwi darpariaeth o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc.

1.6 Mae'r Cynulliad yn ymrwymedig i drawsnewid y ffordd y mae anghenion plant a phobl ifanc yn cael eu diwallu gan ddarparwyr gwasanaeth yng Nghymru.

1.7 Mae'r Cynulliad eisiau clywed lleisiau plant a phobl ifanc, gwrando ar eu sylwadau, a gofalu bod y gwasanaethau'n ymateb i'w hanghenion a'u dyheadau.

1.8 Bydd y fframwaith hwn yn sicrhau ymagwedd newydd tuag at gynllunio a chyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc er mwyn iddynt:

- cyfrannu'n effeithiol at amcan cyffredin, h.y. darparu gwasanaethau priodol ac effeithiol ac o safon uchel i blant;
- gwrando a chanolbwyntio ar anghenion plant a phobl ifanc bod yn seiliedig ar asesiad strategol o'r anghenion a'r blaenoriaethau ar draws holl ystod gweithgareddau ar lefel awdurdod lleol;
- bod yn rhagweithiol a phositif ac wedi'u cynllunio i ddiwallu potensial trwy alluogi llwyddiant, atal problemau a allai rwystro cyrhaeddiad, a chynnig cymorth amserol ac arbenigol pan fo angen hynny; ac

- ymateb yn effeithiol i anghenion pob plentyn a pherson ifanc, gan ystyried, pan fo hynny'n briodol, rhyw, amddifadedd cymdeithasol, ethnigrwydd, crefydd a diwylliant, anabledd a gogwydd rhywiol.

1.9 Mae hyn yn dasg bwysig, ac ni ellir ei chyflawni'n gyflym; mae'r fframwaith hwn yn cynnig awgrymiadau ynghylch sut y gellid cychwyn y broses.

1.10 Mae'r fframwaith yn ceisio gofalu bod awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau, awdurdodau iechyd, asiantaethau a sefydliadau yn y sector gwirfoddol ledled Cymru'n gallu cydweithio'n fwy effeithiol yn unol ag amcanion a blaenoriaethau cyffredin i ddarparu gwasanaethau cynhwysfawr a phriodol sy'n gyfannol ac o safon uchel i bob plentyn yng Nghymru. Mae'n darparu'r cyd-destun i fynd i'r afael â darpariaeth anwastad, gwella safonau a sicrhau fod y buddsoddiad mewn gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn cael ei gyfeirio at ganlyniadau o ansawdd i'r rhai mwyaf anghenus.

1.11 Ar y lefel leol y mae'r bartneriaeth allweddol ar gyfer cyflenwi gwasanaeth, ond ar lefel Gymru-gyfan y mae rôl y Cynulliad. Y cam cyntaf yw cynhyrchu'r fframwaith cyffredin hwn. Y cam nesaf yw i'r Cynulliad adolygu ei raglenni a'i bolisïau, gan gynnwys rhai newydd, er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â'r amcanion cyffredin. Bydd y Cynulliad yn ystyried pa gamau pellach a fydd yn angenrheidiol o bosibl i gynorthwyo awdurdodau i ddiwallu'r fframwaith a'r ffordd orau i'w cynorthwyo trwy gyfrwng ffrydiau cyllido neu fel arall. Mae'r Cynulliad yn ymrwymedig i adlewyrchu ar lefel Gymru-gyfan y gweithio-tîm aml-asiantaethol a argymhellir yn y fframwaith hwn a bydd yn annog ymagwedd unedig tuag at gynllunio a chyflenwi gwasanaethau plant ar lefel leol.

1.12 Wrth lunio'r fframwaith, rhoddwyd ystyriaeth, ymhlith pethau eraill, i adroddiad ymgynghorol diweddar Uned Bolisi'r Cynulliad: *Ymestyn Hawliau - cymorth i bobl ifanc yng Nghymru* [a gyhoeddwyd ar 10 Hydref] ac i Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 sy'n rhoi pwerau newydd i'r Cynulliad fel y gall fynnu bod awdurdodau lleol yng Nghymru'n sicrhau gwasanaeth cynhwysfawr i gynorthwyo pobl ifanc. Bydd y Cynulliad yn ymgynghori ar wahân ynghylch yr argymhellion manwl yn *Ymestyn Hawliau*, ond mae'r argymhellion yn y ddogfen hon ar gyfer ymagwedd strategol tuag at y garfan o blant a phobl ifanc ym mhob ardal awdurdod lleol (Pennod 4) a'r dewisiadau ar gyfer creu cymhwysedd ymgynghorol cryfach (Pennod 6) yn hollol gyson â'r amcanion a'r strwythurau a argymhellir yn adroddiad yr Uned Bolisi.

1.13 Mae'r fframwaith:

- yn darparu datganiad o egwyddorion sy'n gryno a chlir;
- yn darparu cyd-destun cyffredin ar gyfer yr holl raglenni a gwasanaethau sy'n berthnasol i blant;

- yn cwmpasu gwasanaethau cyffredinol ar gyfer pob plentyn yn ogystal â gwasanaethau arbenigol i blant ag anghenion arbennig;
- yn tybio taw partneriaid lleol sydd yn y sefyllfa orau i asesu anghenion, ac i lunio atebion arloesol sy'n manteisio ar gyfleoedd lleol ac yn ymledu arferion da;
- yn mynnu bod trefniadaeth a pherfformiad yr awdurdodau eu hunain yn cynnig y gwerth gorau, yn effeithlon ac yn effeithiol;
- yn gwneud defnydd o ymrwymiad corfforaethol ar y cyd gan aelodau awdurdodau lleol, byrddau awdurdodau iechyd, grwpiau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau NHS, awdurdodau'r heddlu a chyrff llywodraethol ysgolion yn ogystal â chyrff perthnasol eraill, megis y consortia cymunedol ar gyfer addysg a hyfforddiant;
- yn mynnu newidiadau yn arferion gweithwyr proffesiynol sy'n ymdrin â phlant a phobl ifanc megis athrawon, gweithwyr cymdeithasol, meddygon teulu a staff eraill sy'n gweithio yn y gwasanaethau iechyd, y gwasanaeth ieuenctid, yr heddlu a swyddogion prawf.

1.14 Mae'n dibynnu ar:

- ymrwymiad i gydweithio effeithiol rhwng y gwasanaethau statudol, a chyda'r sector annibynnol;

1.15 Mae'n canolbwyntio ar:

- canlyniadau i blant a phobl ifanc yn hytrach na mewnbynnau dan arweiniad gwasanaeth;
- atebion sydd â pherthnasedd lleol yn hytrach na phatrymau cyflenwi gwasanaeth oddi mewn i safonau cenedlaethol;
- targedau sy'n ystyrlon i'r unigolion ymhlith plant a phobl ifanc

## 2. EGWYDDORION CRAIDD

### Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

2.1 Cafodd Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ei fabwysiadu'n unfrydol gan y Cenhedloedd Unedig ym mis Tachwedd 1989 a'i gadarnhau gan Lywodraeth y DU ym mis Rhagfyr 1991*. Yn ystod y deng mlynedd diwethaf mae wedi bod o gymorth wrth sefydlu fframwaith â chydnabyddiaeth ryngwladol ar gyfer trin pob plentyn, mae wedi symbylu delwedd bositif ac optimistaidd o blant a phobl ifanc fel pobl sy'n gallu defnyddio hawliau ac mae wedi ysgogi mwy o ymrwymiad cyffredinol i ddiogelu'r hawliau hynny. Mae'r Cynulliad o'r farn y dylai'r Cytundeb fod yn sail egwyddorol ar gyfer ymdriniaeth â phlant.

2.2 Mae'r Cytundeb yn diffinio 'plentyn' fel person sydd dan 18 oed. Yn gyffredinol, mae'r fframwaith hwn yn defnyddio'r un ymagwedd tuag at ddiffinio 'plentyn neu berson ifanc', ond gall rhai rhaglenni y cyfeirir atynt, megis dysgu yn seiliedig ar waith a chymorth ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal, ymwneud â phobl hyd at 25 oed.

2.3 Mae'r Cytundeb yn cynnwys 41 erthygl sy'n nodi hawliau penodol yn bur fanwl. Mae eu gweledigaeth gyffredinol yn seiliedig ar yr egwyddorion a ganlyn:

- mae plant a phobl ifanc yn fodau dynol yn eu rhinwedd eu hunain. Mae arnynt angen gwarchodaeth ond mae ganddynt eu cryfderau, eu safbwyntiau a'u meddyliau eu hunain, fel unigolion;
- mae plant a phobl ifanc yn aelodau gweithredol o'u cymunedau lleol a chymdeithasau cenedlaethol, ac mae ganddynt y potensial i fod yn ddinasyddion gweithredol;
- fel arfer, rhieni a theulu yw gofalwyr a gwarchodwyr sylfaenol plant, ac mae ganddynt yr hawl i dderbyn y cymorth sydd ei angen arnynt ar gyfer y cyfrifoldebau hyn. Maent yn bartneriaid wrth iddynt wireddu hawliau eu plant, wrth iddynt ddarparu arweiniad a chyfeiriad fel y gall eu plant a phobl ifanc aeddfedu a datblygu cymwyseddau a hyder. Os yw rhieni'n methu gweithredu er lles eu plant, dylid cael trefniadau i ddiogelu'r plentyn a gofalu amdano;
- mae gan gymdeithas ddyletswyddau tuag at blant, gan gynnwys sicrhau eu lles a'u hapusrwydd. Ni ddylai'r un plentyn orfod byw mewn tlodi a dylid cael gwasanaethau i roi'r cychwyn gorau mewn bywyd i bob plentyn.

*Mae Llywodraeth y DU wedi datgan dwy brif amheuaeth wrth gadarnhau'r Cytundeb, mewn perthynas â chyfraith mewnfudiad a chenedligrwydd y DU a sefyllfa plant mewn sefydliadau i droseddwyr mewn oed.

2.4 Mae'r 41 hawl yn perthyn i dri chategori yn fras, oddi mewn i gyd-destun o beidio ag anffafrio neb lle mae hawliau'n berthynol i bob plentyn a pherson ifanc (Erthygl 2) a lle mae'n rhaid i oedolion a sefydliadau ystyried lles y plentyn neu'r person ifanc yn bennaf wrth iddynt benderfynu ar faterion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc (Erthygl 3). Isod, rhestrir y categorïau hyn ac enghreifftiau o'r hawliau sy'n berthynol iddynt.

## Diogelwch

2.5 Mae plant a phobl ifanc yn agored i niwed ac mae ganddynt yr hawl i gael eu diogelu mewn sawl ffordd:

- Erthygl 19 – rhag trais o bob math;
- Erthyglau 37 a 40 – mewn perthynas â thriniaeth yn ôl y gyfraith;
- Erthyglau 32 - 35 - rhag gwaith peryglus, cyffuriau peryglus, camdriniaeth rywiol a rhag cael eu herwgydio neu eu gwerthu.

## Darpariaeth

2.6 Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i gael y safon briodol o ofal corfforol, dysgu ac iechyd.

- Erthygl 6 – i'w helpu i ddatblygu i'w llawn botensial;
- Erthygl 18 a 20 – i ofal o ddydd- ddydd, gan eu rhieni os oes modd;
- Erthygl 24 – i iechyd ac amgylchedd iach;
- Erthygl 23 – i gymorth arbennig os ydynt yn anabl neu ag anghenion arbennig;
- Erthyglau 26 a 27 – i safon byw ddigonol, gyda chymorth nawdd cymdeithasol;
- Erthyglau 28, 29 a 31 – i addysg a hamdden.

## Cyfranogiad

2.7 Mae plant a phobl ifanc yn ddinasyddion gweithredol yn y byd ac mae ganddynt hawliau i'w barn eu hunain, i'w mynegi a chael ystyriaeth lawn ohoni:

- Erthygl 7 – i enw ac i ddod yn ddinesydd gwlad;
- Erthygl 12 – i fynegi eu barn ynghylch materion sy'n effeithio arnynt ac i gael gwrandawiad gan lysoedd a chyrff cyhoeddus ac eraill;
- Erthyglau 13, 14 a 15 – i ryddid o ran mynegiant, meddwl, cydwybod, crefydd a chysylltiad;

- Erthyglau 16 a 17 – i breifatrwydd a mynediad i wybodaeth.

2.8 Mae'r tri grŵp hyn o hawliau plant yn diffinio gwerthoedd, disgwyliadau a gofynion y gwladwriaethau a gadarnhaodd y Cytundeb, gan gynnwys Llywodraeth y DU, mewn perthynas â phlant a phobl ifanc. Fel y cyfryw maent yn cynnal y gwerthoedd a safonau y mae'n rhaid eu defnyddio fel sail i ddatblygu polisi a chyflenwi gwasanaeth yng Nghymru.

## Dylanwadau Datblygiadol ac Amgylcheddol

2.9 Mae angen seilio gwasanaethau i blant a phobl ifanc ar ddadansoddiad o'u hanghenion ac nid ar strwythurau cyflenwi eu darparwyr gwasanaeth.

2.10 Cafwyd cynnydd dramatig yn ystod y blynyddoedd diwethaf mewn gwybodaeth ynghylch datblygiad plant, y cyfnodau corfforol, cymdeithasol, seicolegol a deallusol sy'n rhan o'r broses o dyfu. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu fod yna gyfnodau allweddol – yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar tan 3 oed – pan all mewnbynnau fod yn dra effeithiol wrth gynorthwyo datblygiad plentyn.

## Cyn geni i ddeunaw mis – y newidiadau yn ystod babandod

2.11 Gall ffactorau cynenedigol hwythau ddylanwadu ar ddatblygiad plentyn. Mae'n fanteisiol os yw'r fam yn bwyta'n iawn ac yn mwynhau iechyd da; gall tybaco, alcohol a chamddefnyddio sylweddau yn ystod beichiogrwydd gael effaith andwyol a difrifol.

2.12 Yn ystod y deunaw mis cyntaf o fywyd, mae'n bosibl y gellir gwella cyfleoedd dysgu a datblygu os ceir gofal o ansawdd da sydd hefyd yn ysgogol. Yn y cyfnod hwn, mae 'cerflunio sylfaenol' y plentyn yn digwydd ac mae plant yn dibynnu fwyaf ar y rhai sy'n gofalu amdanynt ac yn fwyaf agored i niwed ganddynt. Mae cysylltiadau a wneir rhwng celloedd yn yr ymennydd yn penderfynu sut y mae plentyn sy'n tyfu yn amgyffred ei amgylchedd, mae ymlyniad emosiynol sylfaenol wrth oedolyn yn datblygu ac mae babanod yn dysgu sut i gyfathrebu'n emosiynol ac yn darganfod rôl emosiynol cyffyrddiad. Wrth i'r llwybrau ddatblygu, mae profiadau cynnar plentyn gydag iaith, lliw a cherddoriaeth yn golygu ei bod yn bosibl cael galluoedd mwy cymhleth o ran dirnadaeth, emosiwn ac ymddygiad.

## Deunaw mis i bump oed – y newid i gyfnod ysgol

2.13 Mae hwn yn gyfnod pan fo plant yn ymadweithio fwyfwy â'u hamgylcheddau. Mae'n gyfnod o ddatblygiad cyflym yn gymdeithasol ac o ran dirnadaeth, ymddygiad ac emosiwn. Mae plant yn dechrau dysgu sut i ymddwyn yn gymdeithasol a sut i ragweld canlyniadau eu gweithredoedd a'u dewisiadau. Gall patrymau ymddwyn positif, magwraeth a gofal gan eu rhieni neu brif ofalwyr eraill yn ystod y cyfnod hwn fod o gymorth i ddatblygu hyder a chwilfrydedd plant. Mae nifer gynyddol o gyhoeddiadau ar gael sy'n ymdrin â sut mae gweithgareddau fel darllen a chwarae gyda phlant yn gallu eu gwneud yn fwy "parod i ddysgu".

## O chwech i ddeuddeg oed – y newid i lencyndod

2.14 Yn ystod y cyfnod hwn mae plant yn datblygu ac yn cyfnerthu amrywiaeth gynyddol o sgiliau a galluoedd corfforol, emosiynol, dirnadol a chymdeithasol, ac yn tyfu'n annibynnol. Mae profiad y tu hwnt i'r cartref a'r teulu'n dod yn bwysicach. Gall profiadau negyddol mynych effeithio ar ddatblygiad, ac mae arweiniad cadarn gan oedolion yn bwysig i helpu plant i ddeall canlyniadau ac aeddfedu. Gall patrymau ymddygiad annymunol yn ystod y cyfnod barhau i gael effaith ar ôl cyrraedd llawn dwf.

## Rhwng deuddeg a deunaw oed – y newid i fod yn oedolyn

2.15 Yn ystod eu llencyndod, bydd plant yn dechrau bod yn annibynnol a gwneud penderfyniadau a all effeithio arnynt gydol eu hoes. Ar yr un pryd, maent yn profi'r newidiadau corfforol ac emosiynol a gysylltir ag oed aeddfedrwydd. Wrth i bobl ifanc yn eu harddegau dyfu, maent yn ceisio bod yn fwy annibynnol o'u teuluoedd, arbrofi â syniadau, profiadau a chyfrifoldebau newydd. Yn ystod y cyfnod hwn maent yn gosod sylfaen y sgiliau a fydd yn sail wrth iddynt lwyddo i ddod o hyd i waith. Er bod eu cyfoedion yn cael dylanwad cynyddol, mae cefnogaeth gryf a dylanwadol gan rieni, oedolion eraill, ysgolion a chymunedau yn bwysig o hyd. Gall delweddau negyddol o ran rhyw a'r cyfryngau, pwysau gan gyfoedion a'r awydd i fynd i'r eithaf olygu bod pobl ifanc yn cymryd risgiau a allai arwain at ganlyniadau difrifol. Os yw pobl ifanc yn eu harddegau'n cael gofal a sadrwydd gan oedolion yn y cartref, yr ysgol a'r gymuned yn gyffredinol, mae ganddynt fwy o hunan-barch, nid ydynt mor isel eu hysbryd, maent yn cyfrannu mwy at weithgareddau ysgol a chymuned, ac yn gwneud yn well yn yr ysgol.

## Dylanwadau amgylcheddol

2.16 Mae plant yn cael eu dylanwadu gan y byd o'u hamgylch yn ystod holl gyfnodau eu twf, ond mae'r dylanwad hwn yn gryfach yn ystod y blynyddoedd cynnar, wrth i'w prosesau seicolegol, ymddygiadol a chymdeithasol gyfannu. Gall deall effeithiau dylanwadau amgylcheddol ein helpu i wneud dewisiadau sy'n cynnig gwell cymorth i blant ac yn gwella'u datblygiad.

## Etifeddiaeth fiolegol

2.17 Mae plant yn etifeddu nodweddion genetig a all ddylanwadu ar iechyd eu meddwl a'u corff yn ogystal â'u hamgylchedd, neu er gwaethaf hwnnw. Fodd bynnag, wrth ddefnyddio dulliau priodol, mae'n bosibl cael gwared ar, neu leddfu, rhai anawsterau sy'n bodoli yn ystod genedigaeth.

## Y Teulu

2.18 Mae gwaith ymchwil wedi dangos fod pob plentyn ag angen cysylltiad cadarn ag o leiaf un oedolyn sy'n ei fagu, gyda chynhaliaeth a gofal tyner cyson yn ystod y blynyddoedd cynnar. Rhieni yw prif gynhalwyr plant, a chafwyd tystiolaeth ymarferol fod sgiliau magu plant yn dylanwadu'n gryf ar ddatblygiad plant. Gall aelodau o deulu estynedig hefyd gael dylanwad hollbwysig. Mae ar deuluoedd angen adnoddau digonol a chymorth priodol i ddarparu'n ddigonol ar gyfer eu plant; mae incwm sicr a pholisïau gofal-plant a gweithle sy'n hyblyg ac sy'n rhoi ystyriaeth i faterion teuluol yn bwysig.

## Diwylliant ac iaith

2.19 Mae plant a phobl ifanc yn ddarpar ddinasyddion eu cymunedau lleol, Cymru, y DU ac Ewrop. Mae ganddynt yr hawl i ddangos pwy ydynt mewn ffyrdd cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol. Dylai cymdeithas gydnabod gwerth amrywiaeth yn hyn o beth. Mae hyn yn cynnwys cydnabod hunaniaeth ieithyddol. Yn bennaf, mae angen cael dwyieithrwydd, ond dylid edrych y tu hwnt i Gymraeg a Saesneg a chynnwys ieithoedd eraill sy'n adlewyrchu natur aml-ddiwylliannol Cymru fodern. Wrth ystyried hawliau plant, mae'n bwysig nodi effeithiau a dylanwadau hiliaeth. Mae tystiolaeth yn dangos yn glir fod yna ddylanwad niweidiol ar ddatblygiad, cyrhaeddiad a chyflawniad addysgol pobl ifanc sydd o darddiad ethnig yn arbennig. Mae gan blant ifanc yr hawl i gael eu trin yn deg a chael cyfle cyfartal, heb fod ag ofn y bydd pobl yn ecsploetio'u gwahaniaethau. Yn ystod y blynyddoedd ffurfiannol, mae hyn yn arbennig o bwysig – fel y nododd Syr William Macpherson yn ei adroddiad ar farwolaeth y llanc croenddu Stephen Lawrence. Mae dathlu a chydnabod gwahaniaeth yn ddiamwys yn hawl y dylai pob plentyn ei ddisgwyl. Bydd yn rhoi hwb i'w hunan-hyder, hunan-barch a hunan-werth. O ran lleiafrifoedd ethnig yn arbennig, nid yw'r ymagwedd o fod yn 'ddall i liw' yn dderbyniol bellach; mae angen ymagwedd weithredol yn hytrach nag ymagwedd oddefol os yw hawliau plant yn mynd i gael eu parchu a'u derbyn.

## Gofal plant ac ysgol

2.20 Rywbryd, bydd y rhan fwyaf o deuluoedd yn defnyddio rhyw fath o ofal plant atodol. Yn ôl canlyniadau ymchwil, mae gofal da, un ai yn y cartref, neu drwy gyfrwng gofal plant ffurfiol neu anffurfiol, yn cael effaith fuddiol ar gymhwysedd cymdeithasol, datblygiad iaith ac ymddygiad. Mae profiadau cyn-ysgol o ansawdd yn rhoi cyfleoedd amrywiol ac ysgogol ar gyfer rhyngweithio a chwarae ac yn paratoi plant ar gyfer yr ysgol. Mae ysgolion yn chwarae rhan bwysig wrth i blant ddysgu a datblygu'n gymdeithasol ac emosiynol. Maent yn helpu i ddatblygu sgiliau dirnadol plant ac yn rhoi cyfle ar gyfer cydberthynas gymdeithasol sy'n mynd yn fwy cymhleth. Yn yr ysgol y caiff llawer o blant eu cyfle cyntaf i arddangos eu hannibyniaeth, hunanhyder a hunanbenderfyniad.

## Amgylcheddau ffisegol ac amgylcheddol

2.21 Gall yr amgylcheddau ffisegol lle mae plant yn byw – megis tai, ffyrdd, parciau a llecynnau chwarae – effeithio'n fawr ar eu hiechyd a'u lles. Mewn rhai cymunedau, mae plant yn agored i lygryddion a all gael effaith andwyol ar eu hiechyd. Mewn cymunedau eraill, mae patrymau traffig neu ddiffyg mannau diogel i chwarae a dysgu yn rhoi plant mewn perygl. Mae'n rhaid i gymunedau sy'n ddiogel i blant fod heb drais, yn fannau sy'n rhwydd i symud o'u hamgylch ac sy'n darparu llecynnau chwarae deniadol.

2.22 Mae cymunedau hefyd yn cynorthwyo plant a theuluoedd yn gymdeithasol trwy roi'r teimlad iddynt eu bod yn perthyn, trwy gynnig sadrwydd a dilyniant, yn ogystal ag amgylchiadau lle mae gwerthoedd a disgwyliadau sy'n cael eu rhannu yn cael eu datblygu. Mae plant yn cwrdd â phlant ac oedolion eraill sy'n eu helpu i ddatblygu ymddiriedaeth, annibyniaeth a menter. Mae cymunedau'n darparu'r seilwaith sylfaenol ar gyfer bywyd teuluol: cyflogaeth, gofal plant, a gwasanaethau ffurfiol ac anffurfiol mewn iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, tai, hamdden a meysydd eraill. Yr un fath â theuluoedd, mae cymunedau'n amrywio o ran adnoddau ac egni, ond gall pob un fod yn gyfeillgar tuag at blant, yn arbennig pan fo gwasanaethau'n hygyrch ac yn integredig.

## Adloniant

2.23 Mae chwarae'n rhan bwysig o ddatblygiad plant. Wrth iddynt dyfu'n hŷn, gall chwaraeon a mathau eraill o adloniant corfforol sefydlu patrymau ymarfer iach sy'n para ar ôl cyrraedd llawn dwf. Mae cymryd rhan mewn, a gwerthfawrogi, cerddoriaeth, y celfyddydau gweledol a llenyddiaeth, yn gallu cyfrannu at ddeall y byd. Ond, yn bwysicach byth, mae'r gweithgareddau hyn yn dod â llawenydd a chyfoeth i fywyd. Dylid eu cynnig fel hawl i bob plentyn a pherson ifanc.

2.24 Bydd yr holl ffactorau a dylanwadau a amlinellir yn yr adran hon yn cael effaith ar gyfleoedd bywyd a photensial plant a phobl ifanc, a dylid eu dwyn i gof wrth benderfynu ar flaenoriaethau a safonau ar gyfer datblygu polisïau a darparu gwasanaethau.

# 3. RHAGLENNI'R CYNULLIAD AR GYFER PLANT

## Gwella cydlyniad rhaglenni cymorth y Cynulliad

3.1 Nododd Gwell Cymru bum thema bwysig:

- Gwell cyfleoedd dysgu
- Gwell economi, economi gryfach
- Gwell iechyd a lles
- Gwell ansawdd bywyd
- Gwell llywodraeth, llywodraeth symlach.

3.2 Mae gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn berthynol i bron bob maes o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae Atodiad 1 yn nodi targedau a rhaglenni'r Cynulliad sy'n berthnasol i'r fframwaith hwn o dan bob un o'r penawdau uchod. Mae'n darparu – am y tro cyntaf – olwg gyffredin a chydlynol ar holl ystod rhaglenni a pholisïau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru ac sydd dan arweiniad y Cynulliad. Mae'n ceisio gosod y fframwaith y gellir ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol a'r holl ddarparwyr gwasanaeth eraill ar gyfer eu polisïau, cynlluniau a chyfrifoldebau eu hunain.

3.3 Cafodd rhai datblygiadau diweddar, megis Cychwyn Cadarn, eu cynllunio ar gyfer canolbwyntio ar rai o'r plant sydd dan yr anfantais fwyaf. Cafodd hyn ei groesawu'n gyffredinol, a rhoddwyd croeso tebyg i ymagwedd y bartneriaeth sy'n rhan ohono. Fodd bynnag, cafwyd beirniadaeth hefyd oherwydd ei fod wedi dwyn adnoddau staff prin oddi wrth wasanaethau prif-ffrwd. Wrth ddarparu golwg gyffredinol – map o'r rhaglenni sy'n bodoli – mae'r Cynulliad wedi ceisio arddangos yr ystod eang o feysydd gwasanaethau lle gwarantwyd ymyrraeth arbennig. Gellir dadlau o blaid rhoi llawer o'r ymdrech hwn yn y brif ffrwd – er enghraifft yr ymyrraeth gynnar y mae Cychwyn Cadarn yn ceisio ei hyrwyddo – oddi mewn i wasanaethau gofal sylfaenol yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae tystiolaeth o batrymau traddodiadol o gyflenwi gwasanaeth yn awgrymu fod plant yn elwa pan fo canolbwyntio – a chyllido penodol – ar agweddau ar ddarpariaeth gwasanaeth i blant a phobl ifanc hawdd i'w niweidio.

3.4 Hefyd mae angen i'r blaenoriaethau hyn gan y Cynulliad gael eu hadlewyrchu yn y cynlluniau a'r rhaglenni sy'n cael eu datblygu a'u gweithredu yn lleol. Bydd angen eu haddasu mewn Fframweithiau Plant a Phobl Ifanc lleol – ond byddai'r Cynulliad yn disgwyl i fframweithiau lleol – i raddau helaeth – adlewyrchu'r blaenoriaethau cyffredinol a nodir yma.

**Cwestiynau ar gyfer ymgynghori:**

Mae'r golwg gyffredinol ar fentrau a rhaglenni'r Cynulliad a nodir yn Atodiad A yn cynnig cyfle i holi ynghylch y cydbwysedd cyffredinol mewn rhaglenni cyfredol:

- a yw'r cydbwysedd yn gywir megis rhwng y grwpiau oedran iau a hŷn;
- rhwng y gwasanaethau iechyd, addysg, a chymdeithasol;
- rhwng darpariaeth gyffredinol a darpariaeth benodol;
- rhwng atal ac ymyrryd;
- rhwng darparwyr gwasanaethau statudol, a'r rhai yn y sectorau gwirfoddol ac annibynnol;
- a oes meysydd lle mae angen cyfeiriad newydd;
- rhwng y gwasanaethau sydd ar gyfer plant a phobl ifanc yn benodol, a'r rhai lle mae integreiddio mwy cyffredinol o ran oedran yn fanteisiol;
- a oes agweddau ar ddarpariaeth i blant lle ceir gormod o ymyrraeth ganolog; neu, ar y llaw arall, na chafodd ddigon o sylw hyd yma;
- a yw'r blaenoriaethau, megis rhwng gwasanaethau, yn foddhaol;
- pan geir targedau gwasanaeth penodol, a ydynt ar y lefelau cywir.

## Dod â rhaglenni at ei gilydd

3.5 Mae angen i'r Cynulliad wella cydlyniad ei raglenni ei hun i gyfateb y gwelliannau arfaethedig mewn cydlyniad lleol. Gyda llawer o'r rhaglenni cymorth arbenigol a nodir yn Atodiad 1 mae awdurdodau lleol a phartneriaid eraill yn cyfuno i gynhyrchu cynlluniau a gyflwynir i'r Cynulliad, ac sy'n sylfaen i'r cyllido ar gyfer gweithgareddau penodol. Mae enghreifftiau'n cynnwys Cychwyn Cadarn, Cronfa Bartneriaeth Plant ac Ieuenctid, a Strategaeth Gofal Plant. Mae'r broses hon yn defnyddio llawer o staff ac adnoddau eraill, yn lleol ac o fewn y Cynulliad. Mae hefyd yn groes i'r cysyniad o gynllunio integredig i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc. Mae'r bennod nesaf yn ystyried effaith y trefniadau cyllido cyfredol.

## Cyllid ar gyfer rhaglenni blaenoriaethol

3.6 Un o'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'r cynadleddau ymgynghorol gyda darparwyr gwasanaeth yn ystod hydref 1999 oedd dymuniad i weld llai o gynlluniau cyllido unigol. Mae'r Cynulliad yn cytuno â'r cais hwn, oherwydd y rhesymau a nodwyd uchod. Y cwestiwn yw beth yw'r ffordd orau o gyfuno'r cynlluniau. Un dewis fyddai ychwanegu holl gyllid yr awdurdodau lleol at y Grant Cynnal Refeniw; dewis arall fyddai parhau i gyllido mentrau annibynnol ag amrywiaeth o grantiau penodol. Mae'r Cynulliad yn ymrwymedig i leihau ac ad-drefnu rhaglenni grant, er mwyn cael cyn lleied o ymyrraeth a gwaith gweinyddol â phosibl, a chaniatáu i awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill ddatblygu atebion lleol o fewn fframwaith cyffredinol o flaenoriaethau a bennwyd gan y Cynulliad ac sy'n cael eu monitro yn ôl canlyniadau gwasanaeth a gytunwyd.

3.7 Mae'r Cynulliad yn argymell y dylid cyfuno'r cynlluniau cyllido cyfredol o fis Ebrill 2002 i ffurfio **Cronfa Cynorthwyo Plant a Phobl Ifanc** newydd. Dylai'r gronfa sengl hon gwmpasu nifer o'r cynlluniau gwahanol sy'n bodoli, gan gynnwys:-

Cychwyn Cadarn

Y Strategaeth Gofal Plant Genedlaethol

Grant Chwarae 2000

*Cronfa Bartneriaeth Plant ac Ieuenctid

*Menter Mynediad Ieuenctid

Yr elfennau hynny o Grantiau Cynorthwyo Addysg a Hyfforddiant (GEST) sy'n mynd i'r afael ag annheyrngarwch ymhlith pobl ifanc.

*cyfunir y ddwy raglen hon o fis Ebrill 2001

3.8 Ceir ad-drefnu pellach pan sefydlir Gyrfaoedd Cymru – gwasanaeth cenedlaethol a fydd yn cynnig arweiniad i bobl o bob oed. Bydd Gyrfaoedd Cymru yn dod â nifer o raglenni'r Cynulliad sy'n cynnig cymorth i bobl ifanc at ei gilydd – y gwasanaeth gyrfaoedd, Porth Ieuenctid ac elfennau o gysylltiadau busnes addysg.

3.9 Mae'r Cynulliad yn bwriadu rhoi dyraniad ariannol mynegol i Cronfa Gymorth Plant a Phobl Ifanc ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yn ystod tair blynedd yr Arolwg o Wariant. Byddai hyn yn seiliedig ar yr Asesiad Gwariant Cyffredinol a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau plant yn y Grant Cynnal Refeniw, sy'n seiliedig ar y boblogaeth dan 18 oed ond sydd â lwfansau ar gyfer poblogaethau difreintiedig a gwasgaredig. Gosodid targedau ar gyfer y canlyniadau sy'n ofynnol os defnyddir y Gronfa, a byddai argymhellion ar gyfer defnyddio'r Gronfa'n ffurfio rhan ar wahân, ond annatod, o'r fframweithiau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc. Byddai'r rhan honno o'r fframwaith sy'n disgrifio gweithgareddau a gafodd eu cyllido gan y Gronfa Gymorth yn cael eu cyflwyno i'r Cynulliad er mwyn cael cytundeb i'w chyllido fel diweddariad blynyddol i'r fframwaith. Byddai angen i bartneriaethau ddatgan yn glir pa gyllid ddylai fynd i awdurdodau lleol a pha gyllid i bartneriaid eraill, megis y sector gwirfoddol neu'r ymddiriedolaethau iechyd. Bydd angen i'r Cynulliad sicrhau fod yna system drwyadl ar gael i fonitro a gwerthuso canlyniadau'r targedau a osodwyd.

3.10 Mae'r Cynulliad o'r farn fod yr argymhellion hyn yn cynnig nifer o fanteision. Byddant yn golygu na fydd angen nifer o gynlluniau ar wahân, ac ar yr un pryd byddant yn sicrhau fod ystod o gyllid i gynorthwyo plant a phobl ifanc yn rhan annatod o ymyraethau arbenigol eraill a threfniadau cynllunio mwy cyffredinol ar gyfer plant a phobl ifanc. Byddai'r argymhellion hefyd yn caniatáu i bartneriaethau lleol gael eu hadolygu a'u symleiddio. Yn y rhan fwyaf o feysydd, dylai fod yn bosibl cael un fforwm Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc, ond penderfyniad lleol a fyddai'n penderfynu a ddylid cadw grwpiau ar wahân am ychydig o leiaf. Yr unig gofyniad o'r canol fyddai cael gweld sut y bu grwpiau perthnasol yn cyfrannu at gynhyrchu'r argymhellion.

3.11 Ni argymhellir cynnwys Cronfa Ddatblygu Plant yn Gyntaf yng Nghronfa Gymorth Plant a Phobl Ifanc. Plant yn Gyntaf yw rhaglen y Cynulliad i wella gwasanaethau arbenigol ar gyfer y plant hynny sydd fwyaf anghenus. Mae adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn yn darparu neu'n cydlynu gwasanaethau ar gyfer y grŵp hwn sy'n gymharol fychan ond yn hanfodol bwysig. Er mwyn cadw hygrededd y gwasanaethau cymdeithasol sy'n gyfrifol am y rhai mwyaf anghenus, argymhellir bod Cronfa Ddatblygu Plant yn Gyntaf yn dod yn rhan o Gronfa Ddatblygu arfaethedig y Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Cwestiynau ar gyfer ymgynghori:**

- Ai integreiddio nifer y cynlluniau a sicrhau monitro a gwerthuso priodol wrth osod targedau clir yw'r ffordd gywir ymlaen?
- Ai'r rhestr o gynlluniau y bwriedir eu hintegreiddio yn y Gronfa yw'r rhestr iawn? A ddylid dileu rhai cynlluniau neu ychwanegu eraill?

# 4. LLWYDDO I GANOLBWYNTIO MEWN STRATEGAETH A CHYNLLUNIO

## Llwyddo i Ganolbwyntio mewn Strategaeth a Chynllunio Lleol: Strategaethau Cymunedol

4.1 Er mwyn gweithredu'r dyheadau a nodir yn y bennod faenorol ac yn Atodiad 1 bydd angen gweithgaredd ar y cyd gan awdurdodau lleol, yr NHS a sefydliadau gwirfoddol. Y lefel leol yw'r lle gorau i ddod o hyd i fylchau a gorgyffyrddiadau mewn darpariaeth ac i unioni'r sefyllfa.

4.2 Ceir 3 llinyn i ad-drefnu'r cynlluniau:

- swyddogaethau newydd y Strategaethau Cymunedol yn Neddf Llywodraeth Leol 2000;
- y Fframweithiau Plant a Phobl Ifanc newydd a argymhellir gan y ddogfen hon – i ddarparu golwg gyffredinol ar yr holl wasanaethau lleol i blant ym mhob ardal; ac
- adolygu'r gofynion am gynlluniau manwl ynghylch gwasanaethau a chynlluniau sy'n ymwneud ag agweddau ar wasanaethau plant gyda'r bwriad o gyfuno a symleiddio pan fo hynny'n bosib.

4.3 Bydd cyfraniadau'r holl bartneriaid yn hollbwysig, ac ni cheir llwyddiant hebddynt. Ond o blith yr holl bartneriaid, mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb arbennig i arwain cymunedau yn unol â'r trefniadau strategaeth gymunedol a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol 2000.

## Strategaethau Cymunedol

4.4 Nod strategaethau cymunedol yw gwella ansawdd bywyd cymunedau lleol trwy weithredu i wella lles ardal o ran yr economi, y gymdeithas a'r amgylchedd. Bydd strategaethau cymunedol yn caniatáu i gymunedau lleol fynegi eu dyheadau, cydlynu gweithrediadau'r awdurdod lleol a gweithrediadau sefydliadau cyhoeddus, gwirfoddol a busnes yn yr ardal, a darparu ffocws a siâp ar gyfer gweithrediadau'r sefydliadau hyn yn gyfredol ac yn y dyfodol. Eu prif elfennau yw: gweledigaeth hirdymor a chanlyniadau i'r ardal, cynllun gweithredu â blaenoriaethau tymor byr ac ymrwymiad ar y cyd ynghylch gweithredu, a threfniadau monitro. Mae strategaethau cymunedol yn darparu'r fframwaith cyffredinol fel y gall awdurdodau ac eraill ddatblygu cynlluniau ar gyfer gwasanaethau i blant a phobl ifanc.

## Fframweithiau Plant a Phobl Ifanc Lleol

4.5 Mae'r Cynulliad yn argymell y dylai fod yn ofynnol i bob awdurdod lleol gynhyrchu strategaeth gynhwysfawr ar gyfer plant a phobl ifanc (fframwaith lleol) fel rhan o'u strategaeth gymunedol. Byddai hyn yn creu cyd-destun i gwmpasu cynllunio ar gyfer yr holl wasanaethau a ddarperir i blant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai a ddarperir yn lleol gan asiantaethau eraill. Byddai'r fframwaith lleol, trwy gyfrwng yr elfennau o arweiniad cymunedol yn y trefniad

cynllunio, yn amodol ar y gofyniad bod ymgynghori'n digwydd ynghylch anghenion pobl leol. Yn achos y strategaethau lleol, byddai hyn yn golygu cyfranogiad plant a phobl ifanc yn arbennig.

4.6 Yr argymhelliad yw y byddai'r fframwaith lleol yn gyfrwng i gael cydlyniad o ran yr holl gynllunio strategol sy'n effeithio ar ansawdd bywyd a lles plant a phobl ifanc. Byddai'n arddangos cyd-berchnogaeth a chyfrifoldeb diwallu anghenion plant a phobl ifanc sy'n gorwedd gyda'r awdurdod lleol, y gwasanaeth iechyd, darparwyr addysg a hyfforddiant, sectorau gwirfoddol a busnes a chymunedau lleol yn yr ardal. Bydd angen i'r fframweithiau lleol ddylanwadu ar, a chael eu dylanwadu gan, gynlluniau'r NHS (gan gynnwys y Grŵp Iechyd Lleol, yr Ymddiriedolaeth NHS a'r Gynghrair Iechyd Leol), ac asiantaethau eraill. Er nad yw plant a phobl ifanc yn defnyddio llawer o'r gwasanaethau iechyd aciwt, mae rhai gwasanaethau fel hybu iechyd, cyngor ar faterion rhyw a chamddefnyddio sylweddau, a gwasanaethau iechyd meddwl i blant ac oedolion, yn rhannau hollbwysig o'r agenda o atal pobl ifanc rhag syrthio i wahanol fathau o eithrio cymdeithasol. Felly, rhaid i'r elfennau hyn o ddarparu gwasanaeth iechyd i blant a phobl ifanc ddod yn flaenoriaethau o dan Strategaeth ddatblygol yr NHS.

4.7 Byddai angen i'r fframweithiau lleol ystyried, a dylanwadu ar, fentrau lleol Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Byddai angen iddynt ddylanwadu ar gynlluniau lleol eraill sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc, gan gynnwys Cynlluniau Strategaeth a Gweithredu Tai, Cynlluniau Trafnidiaeth a Chynlluniau Diogelu Cymunedau. Byddent yn berthnasol i gynllunio strategol ar gyfer meysydd eraill megis llyfrgelloedd, hamdden a mwynderau. Byddent yn cyfeirio at weithgareddau sy'n cael eu harwain gan y sectorau gwirfoddol a busnes, ac yn cysylltu â gweithgareddau eraill sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc, megis chwaraeon a'r celfyddydau.

4.8 Byddai'r fframwaith lleol yn:

- adlewyrchu'r cyfraniad lleol tuag at gyflenwi polisïau a blaenoriaethau Gwell Cymru ac, yn y dyfodol, trefniadau polisi yn ymwneud â phlant a phobl ifanc;
- gosod blaenoriaetha strategol lleol ar y cyd ar gyfer awdurdodau lleol, yr NHS, CETW, Gyrfaoedd Cymru a'r sectorau gwirfoddol;
- adlewyrchu gwerthusiadau Gwerth Gorau a defnyddwyr gwasanaeth ac felly'n rhoi cyfle i gymunedau a phlant a phobl ifanc gymryd rhan;
- nodi'r cyd-destun lleol ar gyfer cynlluniau gwasanaethau, gan gynnwys:
  - amcanion corfforaethol yr awdurdod lleol, y gwasanaeth iechyd a gwasanaethau eraill yn yr ardal;
  - cael defnyddio, os yw hynny'n briodol, cyllid yr Undeb Ewropeaidd yn unol ag Amcanion 1 a 3;
  - ffactorau demograffig, anghenion dynodedig y rhai sydd dan anfantais gymdeithasol, mewn angen, mewn gofal a'r rhai sydd yn eu blynyddoedd cynnar ac yn symud i grŵp yr oedolion;

- y perfformiad hyd y dyddiad diweddaraf yn ôl dangosyddion perfformiad cenedlaethol a lleol;
- y ffordd y bydd y partneriaid yn cydweithio – sut y rhoddir trefniadau yn eu lle er mwyn dod o hyd i blant a phobl ifanc sydd â phroblemau a mynd i'r afael â'r problemau hyn;
- sut y defnyddiwyd barn plant a phobl ifanc wrth ddatblygu a monitro'r strategaeth leol;
- sut y bydd yr asiantaethau perthnasol yn cyfrannu at y broses gyffredinol o gynllunio ac adolygu, a'u cyfrifoldebau i arwain gyda chynllluniau gwasanaeth arwahanol.

4.9 Dylai cynllunio ar gyfer plant a phobl ifanc fod yn gyfrifoldeb corfforaethol ar draws yr awdurdod lleol cyfan. Awgrymir y dylai aelod etholedig hŷn, ym mhob awdurdod lleol, ddwyn cyfrifoldeb penodol dros y broses, a chyfrifoldeb cyfatebol yn cael ei roi i'r prif weithredwr neu uwch swyddog arall.

## Ystod Oedran

4.10 Mae'r astudiaeth *Ymestyn Hawliau - cymorth i bobl ifanc yng Nghymru* gan Uned Bolisi'r Cynulliad yn nodi'r angen i sefydlu partneriaethau lleol yn unol â'r Ddeddf Dysgu a Sgiliau er mwyn adolygu a datblygu gwasanaethau i bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed i rai pwrpasau. Mae hyn yn codi'r cwestiwn a ddylid cael strategaethau lleol cyffredinol i gwmpasu'r cyfnod o enedigaeth i 25 oed, neu a ddylid cael dwy strategaeth, un ar gyfer y cyfnod o enedigaeth nes gadael yr ysgol gynradd a'r llall ar gyfer rhwng 11 a 25 oed. Byddai strategaeth sengl ar gyfer gwasanaethau ataliol i blant a phobl ifanc yn golygu cael yr integreiddio mwyaf posibl, ond mae amheuaeth a fyddai cydlyniad strategaeth sy'n amrywio o ymwelwyr iechyd i fabanod newydd-anedig yn ddigonol i fynd i'r afael ag annheyrngarwch ymhlith oedolion ifanc.

4.11 Byddai rhaniad adeg trosglwyddo o addysg gynradd i addysg uwchradd yn cydnabod fod anghenion babanod a phlant ifanc yn wahanol iawn i anghenion pobl sydd ar fin bod yn oedolion. Mae plant 0 – 11 oed yn dibynnu'n drwm ar ar eu teuluoedd neu ofalwyr. Mae pobl 12 – 18 oed hyd yn oed yn dal i ddibynnu ar eu rhieni neu ofalwyr am gymorth a magwraeth. Fodd bynnag, yn y grŵp oedran hwn mae pobl ifanc yn dechrau mynd allan i'r byd wrth iddynt sefydlu cwrs bywyd annibynnol, datblygu'r hyder a'r gallu i wneud penderfyniadau rhesymegol a chymryd cyfrifoldeb, yn seiliedig ar ddewis ac ymwybyddiaeth o'r byd y maent yn byw ynddo. Bydd llawer, efallai y rhan fwyaf, yn symud at annibyniaeth ar ôl cyfnod o led-annibyniaeth oddeutu llawn oed.

4.12 Byddai adlewyrchu'r rhaniad hwn wrth drefnu cynllunio a chyflenwad gwasanaeth yn dod â nifer o fanteision gan gynnwys canolbwyntio ar anghenion plant, pobl ifanc a'u teuluoedd wrth iddynt newid wrth i'r plant dyfu. Mae angen i'r ddarpariaeth wasanaethau i blant yn y grŵp oedran iau ganolbwyntio mwy ar eu teuluoedd a gofalwyr fel darparwyr cymorth pwysig; i bobl ifanc yn y cyfamser mae pwysigrwydd y teulu, er yn gryf, yn mynd yn llai pwysig.

4.13 Fodd bynnag, gallai rhaniad sy'n berthynol i oedran parthed cynhyrchu strategaethau olygu diffyg cydlyniad ar gyfer y trosglwyddo o addysg gynradd i addysg uwchradd. Mae angen i nifer o gynlluniau sy'n bodoli, megis Cynlluniau Strategol Addysg, a Chynlluniau Gwasanaethau Plant y Gwasanaethau Cymdeithasol (gan gynnwys cynlluniau Plant yn Gyntaf) rychwantu'r holl ystod oedran. Ar ben hynny, nid yw'r toriad 11 oed mor bwysig i wasanaethau megis yr NHS a'r gwasanaethau cymdeithasol ag ydyw i addysg. Felly, awgrymir y dylid cael fframwaith lleol sengl ar gyfer pob ardal awdurdod lleol, i gwmpasu'r cyfnod 0 – 18 oed, ond yn cael ei estyn i 25 oed ar gyfer y gwasanaethau a wasanaethir gan y strategaethau Cymorth i Ieuenctid a argymhellir yn *Ymestyn Hawliau*. Dylai'r trefniadau ar gyfer cynllunio ar gyfer pobl ifanc yn *Ymestyn Hawliau* fod yn un cynllun yn unig o blith yr amrywiaeth o gynlluniau sy'n atodol i'r fframwaith lleol.

## Cynlluniau Gwasanaeth Unigol

4.14 Byddai'r fframwaith lleol yn gosod, yn cydlynu ac yn adlewyrchu'r elfennau strategol a gytunwyd yn yr holl gynlluniau gwasanaeth sy'n cael eu cynhyrchu ar hyn o bryd ac sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc, gan gynnwys:

- Cynlluniau Strategol Addysg, Cynlluniau Cynnal Ymddygiad, Cynlluniau Cymorth Bugeiliol (ac, yn achos plant ag anghenion addysgol arbennig, Cynlluniau Addysg i'r Unigolyn a datganiadau anghenion addysgol arbennig);
- Cynlluniau Gwasanaethau Plant y Gwasanaethau Cymdeithasol (gan gynnwys Cynlluniau Plant yn Gyntaf);
- Cynlluniau Gwella Iechyd;
- Datblygiad Blynyddoedd Cynnar a Chynlluniau Gofal Plant;
- Cynlluniau Cronfa Bartneriaeth Plant ac Ieuenctid;
- Cynlluniau Cyfiawnder Ieuenctid;
- Strategaethau Trosedd ac Anhrefn;
- Cynlluniau Timau Gweithredu Cyffuriau ac Alcohol neu Gynlluniau Timau Gweithredu Lleol, fel y bo'n briodol;
- Cynlluniau Pwyllgorau Amddiffyn Plant Ardal;
- Cynlluniau Cychwyn Cadarn.

4.15 Yn ogystal, mae yna ystod o wasanaethau eraill. Mae rhai ohonynt yn cael eu cyflenwi drwy bartneriaethau, ac awdurdodau lleol yn cyfranogi, ac maent yn cael effaith hollbwysig ar ragolygon pobl ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys y gwasanaethau gyrfaoedd a'r dewis eang o ddysgu ôl-16 oed a fydd yn cael ei gyllido gan Gyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant. Bydd llawer o raglenni'r Cyngor yn cael eu cyflenwi drwy gynlluniau cyflenwi gwasanaethau lleol Consortia Cymunedol Addysg a Hyfforddiant (CCET). Rhagwelir y bydd y rhain yn cynnwys, o leiaf, sefydliadau addysg bellach, darpariaeth hyfforddiant ac addysg gymunedol i oedolion gan awdurdodau lleol, chweched dosbarthiadau ysgolion awdurdodau lleol, ysgolion uwchradd Cymraeg, darparwyr hyfforddiant preifat, cyflogwyr sy'n derbyn arian cyhoeddus ar gyfer hyfforddiant, darparwyr yn y sector gwirfoddol a, phan fo hynny'n briodol, sefydliadau addysg uwch fel aelodau cysylltiol. Bydd angen i amryw o sefydliadau eraill ymwneud i ryw raddau â hyn, gan gynnwys llyfrgelloedd cyhoeddus. Bydd angen i Gyrfaoedd Cymru, CCETau a'r Cyngor Cenedlaethol ymwneud â'r gwaith o gynhyrchu'r fframwaith lleol, a dylai'r cynlluniau hyn yn eu tro gael eu hystyried gan y Cyngor Cenedlaethol wrth wneud asesiadau rhanbarthol o anghenion a chynlluniau strategol.

## Gweithredu fframwaith lleol – Cynllunio lleol trwy Bartneriaeth Sengl i Blant a Phobl Ifanc

4.16 Bydd fframweithiau lleol cydlynol yn dibynnu ar bartneriaethau lleol cryf sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r holl grwpiau perthnasol, gan gynnwys awdurdodau lleol, yr NHS, ysgolion, sefydliadau gwirfoddol a'r plant a'r bobl ifanc eu hunain. Dylai'r partneriaethau hyn sicrhau cydlyniad o ran cynllunio a chyflenwi a byddent yn cysylltu'r holl wasanaethau a chynlluniau sy'n bodoli. Gall trefniadau lleol amrywio, ond dylai fod yn bosibl i integreiddio'r gwahanol bartneriaethau cynllunio sy'n bodoli oddi mewn i un fframwaith, gan gydnabod fod gofynion statudol yn bodoli mewn rhai achosion (e.e. Partneriaethau Datblygu Blynyddoedd Cynnar). Fodd bynnag, dylai fod yn bosibl cael hyblygrwydd o hyd oddi mewn i'r bartneriaeth leol; er enghraifft mae'n bosibl y bydd angen is-grwpiau er mwyn canolbwyntio ar agwedd benodol ar gynllunio neu waith. Y pwynt pwysig yw y dylai'r bartneriaeth gydlynol ganiatáu integreiddio gwahanol elfennau yn ôl y gofyn er mwyn sicrhau cydlyniad a dilyniant y broses gynllunio.

4.17 Mae'n bosibl y bydd angen cael cynlluniau gwasanaeth unigol o hyd ar gyfer y meysydd gwasanaeth allweddol er mwyn diffinio cyflenwad gwasanaethau gweithredol. Mae gwaith pellach ar y gweill er mwyn datblygu fframwaith cynllunio unedig i blant. Bydd argymhellion manwl ar gyfer ymgynghori yn barod yn ddiweddarach eleni.

4.18 Dylai'r fframwaith lleol arfaethedig arwain at welliant sylfaenol o ran cyd-drefnu gwasanaethau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc. Dylai alluogi asiantaethau i gydweithio i gael cytundebau a gosod blaenoriaethau lleol ac ymateb i flaenoriaethau Cymru-gyfan, nodi bylchau a gorgyffyrddiadau ar y lefel leol, ac, ar y cyd, i weithredu trefniadau ar gyfer gwerthuso a mesur canlyniadau.

4.19 Hefyd, dylai'r fframwaith lleol ddarparu cyd-destun fframweithiol ar gyfer defnyddio'r bartneriaeth a chael cyllido hyblyg rhwng yr NHS a'r gwasanaethau cymdeithasol yn unol â Deddf Iechyd 1999. Byddai'n cydlynu ymatebion addysg, iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol i'r angen ar y lefel leol, er enghraifft wrth roi gwell dilyniant o ran trefniadau cymorth rhwng addysg a gwasanaethau gofal plant cymunedol.

4.20 Dylai gweithio drwy bartneriaeth fod o gymorth i greu rhwydweithiau o gymorth i'r rhai anghenus, oddi mewn i strwythur sy'n nodi cyfrifoldebau arweiniol darparwyr ac sy'n gallu darparu gwasanaeth cydlynol ar draws ymyraethau prif-ffrwd yn ogystal â'r rhai a dargedwyd. Mae gwasanaethau prif-ffrwd yn chwarae rhan allweddol wrth gysylltu pobl â chymorth cyffredinol neu gymorth a dargedwyd, a dylai partneriaethau lleol geisio sicrhau fod hyn yn digwydd.

4.21 Nid yw'n fwriad i ychwanegu at ofynion cynllunio neu weithio mewn partneriaeth ond yn hytrach i osod strwythur newydd yn ei le, sy'n gwbl integredig â'r broses gynllunio gymunedol, a dylai hyn hepgor yr angen am rai partneriaethau a chynlluniau ar wahân. Dylai'r rhai sydd ar ôl fod yn fwy effeithiol oherwydd byddant yn elwa ar fframwaith cyffredinol a ffyrdd cytunedig o weithio rhwng y partneriaid.

4.22 Ni fydd y partneriaethau newydd hyn yn effeithiol oni cheir ymrwymiad gan yr holl sefydliadau perthynol i newid yn sylfaenol eu ffyrdd o weithio. Bydd yn rhaid i'r rhai sy'n cymryd rhan edrych y tu hwnt i agenda'r prif sefydliad a chynnig eu hunain fel rhan o dim sydd â phrif amcan o wella cyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc yn eu hardal. Bydd hyn yn galw am gydweithrediad gwirioneddol ymhlith sefydliadau sy'n amrywio'n fawr o ran maint a dulliau gweithio. Bydd angen bod yn agored, rhannu agenda a rhoi'r gorau i ymgiprys rhwng gwahanol sefydliadau. Hefyd, bydd angen cydlynu prosesau cynllunio sydd ar hyn o bryd yn gweithredu yn ôl amserlenni ac amcanion gwahanol, ac yn derbyn arian o ffrydiau cyllido gwahanol. Mae'n rhaid cael ymagwedd gyfranogol newydd tuag at gynllunio, gyda chyfraniad gan ddefnyddwyr, sef pobl ifanc a'u teuluoedd, ac nid yn unig gan ddarparwyr gwasanaeth. Bydd yn rhaid i bobl ystyried y partneriaethau newydd fel y prif gyfrwng ar gyfer newid yn hytrach na baich ychwanegol neu weithgaredd ymylol. Bydd yn rhaid i'r canlyniad fod yn bersbectif newydd ar ymdrin ag anghenion plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn hytrach na chynllun sy'n gorwedd ar y silff.

4.23 Nid yw'r anawsterau ynglŷn â hyn yn cael eu bychanu; byddai'n cymryd amser i'r ymagwedd newydd arfaethedig ymsefydlu ei hun. Ond ei chnewyllyn yw cydnabyddiaeth na ellir priodoli unrhyw un o'r canlyniadau sydd eu hangen ar gyfer pobl ifanc i waith unrhyw un asiantaeth; ac mae'n rhaid i bawb roi blaenoriaeth i wella cyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc. Byddai'r trefniadau hyn yn fodd i adlewyrchu'r realiti hwnnw wrth gynllunio gwasanaethau. Nid y plant a'r bobl ifanc yn unig a fyddai'n elwa; yn y pen draw, byddai llai o broblemau i'w datrys gan y gwasanaethau i oedolion. Mae rhai awdurdodau wedi dechrau defnyddio'r ymagwedd hon

eisoes yng nghynlluniau gwasanaethau plant y Gwasanaethau Cymdeithasol. Yr her yn awr yw ei gwneud yn rhan annatod o'r diwylliant o weithio gyda phlant ledled Cymru.

**Cwestiynau ar gyfer ymgynghori:**

Ai'r trefniadau fframwaith a phartneriaeth lleol arfaethedig ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yw'r ffordd orau o gael golwg gyffredinol strategol ar eu hanghenion ac ar ddigonolrwydd y gwasanaethau a ddarperir yn lleol?

Ai'r ymagwedd o un bartneriaeth leol gyffredinol a phenderfyniad lleol ynghylch pa grwpiau eraill a ddylai fod yn rhan o'r fframwaith yw'r ymagwedd gywir?

A ddylai'r Cynulliad ddarparu canllawiau ynghylch y trefniadau sydd eu hangen ar gyfer partneriaethau ym mhob ardal?

# 5. GWRANDO AR BLANT

## Cefndir

5.1 Cyfeiriodd Pennod 1 at ymrwymiad y Cynulliad i drin plant a phobl ifanc "fel aelodau gwerthfawr o'r gymuned, gan sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u hanghenion yn cael eu hystyried wrth lunio polisïau ym mhob maes". Caiff hyn ei gadarnhau gan yr amcan o hyrwyddo dinasyddiaeth weithredol, gan roi'r cymhelliad a'r cyfle i blant a phobl ifanc chwarae rhan bositif ym mywyd y gymuned.

5.2 Ar lefel unigolyn, mae'r ffordd y mae plant a phobl ifanc yn gwneud penderfyniadau ac yn gwneud dewisiadau cyfrifol yn chwarae rhan hanfodol ym mywyd pob unigolyn wrth dyfu i lawn oed a dinasyddiaeth weithredol. Ar lefel darparu gwasanaeth, gall cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau wneud datblygiadau arfaethedig yn fwy perthnasol a chynaliadwy a gall hybu teimladau o berchnogaeth a chyfrifoldeb.

5.3 Mae Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gosod pwyslais sylweddol ar gyfranogiad plant a phobl ifanc o ran gwneud penderfyniadau. Mae plant yn ddinasyddion gweithredol yn y byd ac mae ganddynt hawl i'w barn eu hunain, i'w mynegi, a chael ystyriaeth lawn ohoni. Mae hyn yn cynnwys yr hawl i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau (Erthygl 12), i dderbyn gwybodaeth (Erthygl 17) a'r hawl i fod yn ddinasyddion, o ran cael eu cynnwys yn gymdeithasol fel cyfranogwyr gweithredol mewn cymunedau lleol.

5.4 Wrth ymgynghori ynghylch y fframwaith hwn â darparwyr gwasanaeth a phlant a phobl ifanc, cafwyd bod yna deimlad cryf o blaid gwrando'n fwy astud ar leisiau plant a phobl ifanc. Mae'r Cynulliad o'r farn y dylai'r fframwaith hwn sicrhau fod plant a phobl ifanc yn cael gwrandawiad ac yn cael y cyfle i chwarae rhan weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau ac yn cael cyfle hefyd i leisio barn am y gwasanaethau y dylent eu cael. Fodd bynnag, fel arfer y rhai sydd âr angen mwyaf am gymorth sydd lleiaf tebygol o gynnig eu sylwadau. Dylai unrhyw drefniadau a wneir ddarparu ar gyfer gwrando ar yr hyn sydd gan blant a phobl ifanc i'w ddweud.

5.5 Mae *Llais Ifanc*, neu *Young Voice*, eisoes wedi dechrau ar y broses hon. Mae'r Cynulliad wedi dechrau ar broses a fydd yn para am 12 – 18 mis o gael plant a phobl ifanc i gyfranogi a rhyngweithio. Bydd *Llais Ifanc/ Young Voice* yn helpu'r Cynulliad i arbrofi a dod o hyd i ffyrdd hirdymor a chynaliadwy o gael plant a phobl ifanc i gyfranogi a rhyngweithio, yn enwedig mewn perthynas ag ymgynghori effeithiol a datblygu a gweithredu polisïau'r Cynulliad. Ei nod yw creu mecanweithiau arloesol, hygyrch a chlir er mwyn galluogi plant a phobl ifanc i ddweud eu dweud am y pethau sy'n berthnasol iddynt, a galluogi'r Cynulliad i gael deialog positif â hwy. Rhan bwysig ac annatod o'r broses fydd ymgynghori â phlant a phobl ifanc ynghylch sut y gallant helpu i sicrhau fod Llais Ifanc yn cyrraedd y nod.

5.6 Ar hyn o bryd mae tair elfen i *Llais Ifanc/Young Voice*. Yn gyntaf, ceir safwe lle gall pobl ifanc ofyn cwestiynau am y Cynulliad a'i waith, a mynegi barn am faterion sy'n effeithio arnynt. Y nod yw datblygu safle sy'n gwbl ryngweithiol fel y gall pobl ifanc drafod materion nid yn unig â'r Cynulliad ond hefyd â phobl ifanc eraill ledled Cymru. Mae'r safwe'n cael ei gysylltu â llawer o safweoedd eraill ar gyfer pobl ifanc er mwyn creu un canolbwynt ar gyfer ystod o wybodaeth leol a rhwydweithiau eraill i bobl ifanc. Yn ail, darperir gwybodaeth am y Cynulliad a sut mae'n gweithio i bobl ifanc trwy gyfrwng amrywiaeth o becynnau gwybodaeth a fydd yn cael eu diweddaru'n gyson. Yn drydydd, bydd *Llais Ifanc/Young Voice* yn trefnu digwyddiadau a fydd yn rhoi'r cyfle i bobl ifanc drafod materion ymhlith ei gilydd ac i gael trafodaeth am y materion hynny gyda'r Cynulliad a gwleidyddion lleol.

## Mae angen cyd-destun ar Gyfranogi.

5.7 Mae angen i sylwadau plant a phobl ifanc gael eu cynnwys ym mholisïau a chynlluniau darparwyr gwasanaeth. Mae'r problemau a'r materion a godir yn debygol o fod yn berthnasol a heriol. Disgwylir ymatebion er mwyn i'r broses o gyfranogi beidio â chael ei dibrisio a chael ei gweld fel "gwastraff amser" neu fel enghraifft o "dydyn nhw ddim yn gwrando arnom ni". Bydd angen gweithredu i ddechrau mewn amser byr; byddai rhywbeth cymhleth a fyddai'n cymryd dwy neu dair blynedd yn cael ei ystyried gan lawer fel rhywbeth na chafodd ei gyflenwi.

## Mae angen strwythur ar Gyfranogi.

5.8 Ar y lefel leol y mae'n haws i blant a phobl ifanc weld canlyniad eu cyfranogiad. Eisoes, mae cyfranogiad yn digwydd ar lefel leol mewn sawl ffordd, megis fforymau plant a phobl ifanc, cynghorau tref a chynghorau ysgol. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru'n cefnogi mecanweithiau fel hyn neu ar fin eu sefydlu. Gellir datblygu'r trefniadau hyn er mwyn creu mecanwaith sy'n galluogi plant a phobl ifanc i weithredu fel cyfranogwyr gweithredol wrth wneud penderfyniadau mewn modd cydlynol a chyson.

5.9 Mae ysgolion yn lleoliadau allweddol ar gyfer cyfranogiad gan blant a phobl ifanc. Maent yn wasanaeth cyffredinol, yn asiantaeth bwysig o ran cymdeithasu a thyfu i lawn oed, ac mae'r gallu i wneud dewisiadau gwybodus a gwneud penderfyniadau cyfrifol yn elfennau hollbwysig. Felly, gall ysgolion fod â rhan ganolog i'w chwarae wrth sicrhau fod y nifer fwyaf posibl o blant a phobl ifanc yn cael cyfle i gyfranogi. Mae'r modd y gweithredir hyn yn amrywio'n fawr ar hyn o bryd.

5.10 Mae'r Cynulliad o'r farn y dylid cael cynghorau ysgolion ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd yng Nghymru gyda'r swyddogaeth o roi'r cyfle i gynrychiolwyr o blith y disgyblion fod â rhan mewn gwneud penderfyniadau perthnasol. Trwy wrando ar blant a phobl ifanc, ac annog eu cyfranogiad ym mywyd ehangach eu hysgolion, byddant yn cael cymorth i ddatblygu sgiliau cyfathrebu, i ddysgu sut i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau a sut i rannu cyfrifoldebau. Bydd hyn i gyd yn eu cynorthwyo ar y ffordd i annibyniaeth a bod yn oedolion.

Ar y lefel gynradd, mae cyfranogiad yn debygol o ganolbwyntio i ddechrau ar faterion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar fywyd yr ysgol, megis bwlio, a gellid datblygu mentrau sy'n bodoli megis Gwarchod Ysgolion. O ran y grwpiau oedran hŷn, gall y canolbwyntio cychwynnol hyn ar yr ysgol arwain at ystyried materion mwy cyffredinol.

5.11 Bydd angen i'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc a argymhellir ym Mhennod 2 gynnig rhan i gynrychiolwyr plant a phobl ifanc. Gallai hyn gynnwys defnyddio'r rhwydwaith ysgolion lleol. Am fod pob ysgol â mynediad i'r Rhyngrwyd, mae hwn yn gyfrwng delfrydol i ymgynghori â phlant a phobl ifanc, ac mae hefyd yn fodd i wella'u sgiliau TGC. Bydd yn bwysig i gynghorau ysgolion fod yn effeithiol ac osgoi rhoi gwasanaeth gwefus i sylwadau disgyblion. Gallai hyn olygu newid diwylliant mewn rhai ysgolion. Fodd bynnag, nid yw'n debygol y bydd cynghorau ysgolion yn fodd i gyrraedd pob grŵp o bobl ifanc. Mae'n bosibl y bydd angen gwneud trefniadau eraill hefyd.

5.12 Bydd angen i Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc Lleol a chynghorau ysgol roi sylw arbennig i sicrhau fod y lleisiau a glywir ganddynt yn cynnwys lleisiau plant a allai fod dan anfantais, megis y rhai ag anghenion arbennig, y rhai sydd â diwylliannau gwahanol a'r rhai sydd dan ofal awdurdodau lleol.

## Mae angen cefnogi cyfranogiad

5.13 Mae ymgynghori â phlant a phobl ifanc yn wahanol i ymgynghori ag oedolion. Er mwyn iddo fod yn ystyrlon, mae angen iddo ymgorffori amrywiaeth o dechnegau, ac yn aml bydd yn fwy rhyngweithiol a gweledol nag sy'n arferol wrth ymgynghori ag oedolion. Po fwyaf anghenus yw pobl ifanc y lleiaf tebygol ydynt o gyrchu prosesau ymgynghorol. Bydd angen mewnbwn arbenigol er mwyn cael cyngor ynghylch materion megis ffurf yr ymgynghori a hyfforddiant i'r rhai sy'n cymryd rhan. Mae amrywiaeth o brosiectau a mentrau'n bodoli eisoes ym meysydd eiriolaeth, hawliau plant a chyngor. Mae llawer ohonynt yn derbyn cymorth gan awdurdodau iechyd ac awdurdodau lleol, a gellir datblygu patrymau arfer a dysgu oddi wrth y rhain. Nid yw'r Cynulliad yn dymuno gorchymyn sut y dylid ymgynghori. Fodd bynnag, wrth gyflwyno eu strategaethau lleol, bydd disgwyl i awdurdodau fod wedi dangos fod plant a phobl ifanc ar draws yr holl amrediad wedi chwarae rhan wrth lunio'r strategaethau, ac ym mha fodd y gwnaethant hynny.

Cwestiynau ar gyfer ymgynghori:

Beth yw'r ffyrdd gorau o dderbyn barn plant a phobl ifanc?

A yw rhwydwaith o gynghorau ysgol yn rhan hanfodol o'r trefniadau i gael barn plant a phobl ifanc?

Os ydyw, pa arweiniad ddylid ei roi i ysgolion ynghylch sefydlu a chynnal cynghorau ysgol effeithiol?

Sut gall y trefniadau ar gyfer cyfranogi sicrhau fod plant a phobl ifanc sydd dan anfantais, oherwydd rhesymau iechyd, economaidd neu gymdeithasol, yn gallu cymryd rhan?

Sut gallwn atal gwasanaeth gwefus mewn ymgynghori?

Sut gallwn gael plant a phobl ifanc i gyfranogi ym mywyd cyhoeddus y tu allan i'w hysgolion neu golegau?

## 6. MONITRO'R STRATEGAETH

6.1 Er mwyn gweithredu gwell gwasanaethau i blant oddi mewn i'r fframwaith hwn, bydd angen cael strwythur ar lefel Gymru-gyfan. Mae nifer o elfennau o hyn yn eu lle eisoes a bwriedir cyflwyno nifer o rai eraill; yn barod mae yna Weinidog y Cynulliad â chyfrifoldeb penodol dros blant a phobl ifanc, ac mae ei gwaith hi'n cael cymorth Grŵp Polisi o swyddogion ar y Bwrdd a Chyfarwyddwyr Grŵp ar draws grwpiau perthnasol y Cynulliad. Hefyd, mae yna Weithgor Gorchwyl Plant, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r NHS, gwasanaethau cymdeithasol, addysg a'r sector gwirfoddol, ac sy'n ymwneud â gweithredu'r argymhellion ar gyfer plant ym Mhapur Gwyn y Gwasanaethau Cymdeithasol i Gymru, *Adeiladu ar gyfer y Dyfodol.* Mae gwaith ar argymhellion eraill ar y gweill. Mae'r Cynulliad yn bwriadu cynhyrchu adroddiadau rheolaidd sy'n asesu'r cynnydd mewn perthynas â gweithredu'r fframwaith hwn yn gyffredinol.

### Dewisiadau ar gyfer creu awdurdod ymgynghorol newydd ar gyfer gwasanaethau i blant yng Nghymru

6.2 Yn ei adroddiad, *Ar Goll Mewn Gofal,* argymhellodd Syr Ronald Waterhouse y dylid sefydlu Cyngor Ymgynghorol i Wasanaethau Plant yng Nghymru a fyddai'n cynnwys aelodau ag arbenigedd eang mewn gwasanaethau i blant, gan gynnwys gwaith ymarferol, rheoli gwaith ymchwil a hyfforddiant. Ei bwrpas fyddai cryfhau'r ddarpariaeth o wasanaethau plant yng Nghymru a sicrhau eu bod yn derbyn y flaenoriaeth y maent yn ei haeddu. Argymhellodd Syr Ronald y dylai'r swyddogaethau gynnwys:

- cynghori ynghylch polisi a deddfwriaeth y Llywodraeth o ran eu heffaith debygol ar blant a phobl ifanc;
- comisiynu ymchwil; a
- lledaenu gwybodaeth a gwneud argymhellion.

6.3 Amrywiad o'r argymhelliad hwn fyddai creu grŵp aml-ddisgyblaethol i fonitro gweithredu. Byddai'n cynghori'r Cynulliad ar effeithiolrwydd yr hyn sy'n cael ei gyflenwi yn lleol, yn debyg i'r patrwm a argymhellwyd yn yr adroddiad *Ymestyn Hawliau* mewn perthynas â phobl ifanc. Byddai hyn yn darparu arbenigedd technegol a phersbectif trawsbynciol i helpu i benderfynu ar:

- blaenoriaethau ar gyfer gwella gwasanaethau i blant – ar draws yr amrediad cyfan o faterion proffesiynol, cyllidol ac eraill
- negesau o ymchwil cyfredol – gan gynnwys lledaenu arferion da a phynciau ar gyfer ymchwil a gwerthuso yn y dyfodol.

6.4 Gellid cael peth gorgyffwrdd â swyddogaethau'r Comisiynydd Plant yn y ddau argymhelliad a nodwyd uchod. Er bod dadlau mewn egwyddor o blaid creu awdurdod

ymgynghorol canolog i ganolbwyntio ar anghenion plant yng Nghymru ar draws ffiniau proffesiynol a gwasanaeth ac i wneud defnydd o arbenigedd academaidd a phroffesiynol, rhaid mynd i'r afael â nifer o faterion allweddol wrth geisio creu'r awdurdod hwn. Maent yn cynnwys:

- diffinio ei swyddogaethau yn glir – a ddylid ymdrin â'r rhain trwy gyfrwng proses tasg-a-gorffen neu a allai grŵp ymgynghorol sefydlog gynnal ffocws ac ysgogiad digonol?
- y dull o benodi – a fyddai penodi trwy gyfrwng enwebiad yn ôl sector neu drwy gyfrwng hysbyseb gyhoeddus yn debygol o gynhyrchu'r cyfuniad mwyaf effeithiol o arbenigedd?
- y berthynas â swyddfa'r Comisiynydd Plant, Pwyllgorau'r Cynulliad a strwythurau swyddogol.

## Y Comisiynydd Plant

6.5 Mae Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cynulliad wedi llunio argymhellion ar gyfer rôl, cylch gwaith a swyddogaethau Comisiynydd Plant i Gymru, a chawsant eu cymeradwyo yn ystod dadl lawn. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai rolau'r Comisiynydd gynnwys:

- defnyddio ei swyddogaethau yn unol â'r nod cyffredinol o hyrwyddo a chynnal Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ac oddi mewn i'r cyd-destun hwnnw i:
- hyrwyddo hawliau plant, codi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â phlant a chymryd golwg gyffredinol ar effaith yr holl bolisïau a gweithdrefnau ar blant ar draws yr holl wasanaethau yng Nghymru a ddarparwyd ar gyfer plant, neu sy'n effeithio arnynt, er mwyn gwneud argymhellion a datblygu canllawiau a phatrymau arferion da, gan gynnwys ar gyfer gwaith trawsbynciol;
- cynrychioli barn plant;
- monitro a goruchwylio cwynion a gweithdrefnau datgelu camarfer a threfniadau ar gyfer eirioli, ac ystyried y manteision o gael y cyfryw weithdrefnau a threfniadau os nad ydynt yn bodoli;
- bod yn ffynhonnell cyngor a gwybodaeth i blant ynghylch sut i ddefnyddio trefniadau cwyno sy'n bodoli, ac i ymarferwyr ynghylch arferion da wrth gynhyrchu a gweithredu trefniadau cwyno;
- ymgymryd ag ymchwiliadau ffurfiol os oes mater o egwyddor yn y fantol – er enghraifft, os oes tystiolaeth o ymyrraeth gyson â hawliau plant mewn ardal benodol – neu os yw amgylchiadau achos yn gorwedd y tu allan i unrhyw drefn gwyno sy'n bodoli;

- bod â'r pŵer i gynorthwyo, gan gynnwys cymorth ariannol, mewn achosion sy'n ymwneud ag anwybyddu hawliau plentyn unigol os oes mater o egwyddor yn y fantol;
- gwylio os ydyw'n dewis, ac os yw hynny'n briodol, unrhyw ymchwiliadau i gam-drin plant yng Nghymru;
- bod â'r pŵer i fynnu bod gwybodaeth yn cael ei rhoi a bod dogfennau'n cael eu dadlennu mwn cysylltiad â'r swyddogaethau hyn a chychwyn y broses o ddefnyddio gorfodaeth i dderbyn gwybodaeth os oes angen;
- gwneud adroddiadau, gan gynnwys adroddiad blynyddol i'r Cynulliad.

6.6 Y bwriad yw sefydlu'r Comisiynydd mewn dau gam. Sefydlir swydd statudol y Comisiynydd i ddechrau yn unol â Deddf Safonau Gofal 2000. Bydd swyddogaethau'r Comisiynydd o dan y Ddeddf yn estyn i'r gwasanaethau y mae'n eu rheoleiddio. Mae'r rhain yn cynnwys cartrefi plant, canolfannau preswyl i deuluoedd, asiantaethau maethu, asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol, gwasanaethau maethu a mabwysiadu awdurdodau lleol, gofal anheddol, agweddau lles gofal-dydd a gwasanaethau gwarchod plant o dan wyth oed, ysbytai a chlinigau preifat a gwirfoddol, ac agweddau lles ysgolion preswyl. Gobeithir penodi'r Comisiynydd erbyn diwedd 2000 neu ddechrau 2001.

6.7 Mae'r Cynulliad yn ceisio deddfwriaeth sylfaenol ar wahân i ehangu rôl, cylch gwaith a swyddogaethau'r Comisiynydd, yn unol ag argymhellion y Pwyllgor.

6.8 Ar yr un pryd, mae'r Cynulliad yn ystyried defnyddio ei bwerau sy'n bodoli yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru i ofyn i'r Comisiynydd ymgymryd, mewn modd ymgynghorol, â thasgau sy'n berthnasol i bob plentyn yng Nghymru.

6.9 Am mai cynnal a hyrwyddo egwyddorion Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) fydd un o nodau'r Comisiynydd, disgwylir y bydd yn cyfrannu at baratoi ymateb Cymru i'r adroddiad pum-mlynyddol i Gomisiwn y Cytundeb.

6.10 Bydd angen i'r Comisiynydd fod mewn cysylltiad ag ystod eang o sefydliadau ar lefelau gwahanol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau/ei dyletswyddau, a bydd angen ystyried ymhellach sut y dylid datblygu cyfathrebu ar wahanol lefelau. Ond y berthynas bwysicaf fydd honno â'r plant a'r bobl ifanc eu hunain, oherwydd bydd y Comisiynydd yn atebol iddynt a dylid eu hystyried wrth lunio'r agenda ar gyfer gwaith y Comisiynydd. Bydd angen i'r Comisiynydd roi blaenoriaeth i sefydlu mecanweithiau penodol i ganiatáu cyfranogiad o'r fath gan blant a phobl ifanc. Gall y Comisiynydd ystyried defnyddio a datblygu mecanweithiau cyfranogi sy'n bodoli, megis fforymau plant a phobl ifanc lleol a rhanbarthol, a menter *Llais Ifanc / Young Voice* y Cynulliad fel modd i gael y cydlyniad gorau i'r fframwaith cyfranogi.

6.11 Agwedd bwysig ar waith y Comisiynydd fydd cymryd golwg gyffredinol ar effaith yr holl wasanaethau yng Nghymru a ddarparwyd ar gyfer plant, neu sy'n effeithio arnynt, er mwyn gwneud argymhellion a datblygu canllawiau a phatrymau arferion da, gan gynnwys ar gyfer gwaith trawsbynciol. Er mwyn bod yn effeithiol, mae angen rhoi mecanweithiau yn eu lle i sicrhau fod yna ymgynghori cynnar â'r Comisiynydd ynghylch argymhellion polisi.

6.12 Mae'r Cynulliad yn debygol o ofyn i'r Comisiynydd gynhyrchu adroddiad blynyddol ar statws plant yng Nghymru, a fyddai'n cynnwys asesiad o'r sefyllfa ar gefndir Cytundeb y Cenhedloedd Unedig a'r gwerthoedd a blaenoriaethau oddi mewn i'r fframwaith hwn.

## Asesu effaith y polisïau ar Blant a Phobl Ifanc

6.13 Mae angen i'r Cynulliad ddatblygu mecanweithiau i sicrhau fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i anghenion plant, pobl ifanc a'u teuluoedd wrth ddatblygu polisi ar gyfer ei holl gyfrifoldebau. Mae hynny'n golygu rhoi ystyriaeth iddynt wrth ystyried datblygiadau mewn gwasanaethau na chaiff eu darparu'n uniongyrchol ar gyfer plant, megis materion cynllunio ac adeiladu ffyrdd. Mae'r Cynulliad yn bwriadu cyflwyno gofyniad i roi sylw arbennig i'r effaith y gallai polisïau newydd ei gael ar blant a phobl ifanc.

6.14 Ymhlith y cwestiynau y bydd angen eu hateb fel rhan o'r broses mae:

- A ydyw'r argymhelliad yn effeithio'n uniongyrchol ar blant a phobl ifanc ac, os ydyw, beth yw'r effeithiau? Sut gall yr argymhelliad wella eu bywydau?
- A ydyw'r argymhelliad yn effeithio'n anuniongyrchol ar blant neu bobl ifanc, er enghraifft adeiladu ffordd a allai effeithio ar eu mynediad i'r ysgol neu gyfleuster hamdden?
- A fydd yr argymhelliad yn cael mwy o effaith ar un grŵp o blant a phobl ifanc nag ar eraill, neu a geir cystadlu o ran buddiannau rhwng gwahanol grwpiau?
- A fydd yr argymhelliad yn effeithio ar feysydd polisi eraill neu ar gyrff sy'n ymwneud â gweithio gyda phlant a phobl ifanc, ac a oes cyfle i integreiddio'r argymhelliad newydd â mesurau eraill sy'n bodoli neu a fwriedir?

**Cwestiynau ar gyfer ymgynghori:**

A ddylai'r Cynulliad fabwysiadu grŵp ymgynghorol allanol a pha ddulliau a fyddai fwyaf effeithiol ar gyfer penodi a gweithio?

## ATODIAD 1

## RHAGLENNI A BLAENORIAETHAU CYFREDOL Y CYNULLIAD

1. Mae'r adrannau a ganlyn yn nodi rhaglenni a blaenoriaethau cyfredol y Cynulliad oddi mewn i bob un o themâu Gwell Cymru. Y gwariant yw hwnnw ar gyfer blwyddyn ariannol 2000-01 oni nodir yn wahanol.

## GWELL CYFLEOEDD DYSGU

2. Dysgu yw'r allwedd sy'n galluogi plentyn i ddeall y byd. Wrth i blant dyfu, daw dysgu i fod yn sylfaen hanfodol ar gyfer dinasyddiaeth gyfrifol a gweithredol a'r sefydlogrwydd a ddaw ar ôl cael swydd dda. Mae'r Cynulliad yn ceisio sicrhau fod gan bawb y sgiliau a'r wybodaeth i wireddu eu potensial. Mae'r broses hon yn cychwyn gyda blaenoriaeth y Cynulliad i:

**Rhoi cychwyn da i'n plant ieuaf, gan gynnwys y rhai yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig.**

3. Erbyn 2010, yn ôl Gwell Cymru:

*Bydd yn rhaid i rieni newydd fod â'r sgiliau sydd eu hangen i helpu eu plant i ddysgu a datblygu fel unigolion cyflawn.*

4. Mae'r Cynulliad yn cydnabod taw rhieni yw'r dylanwad allweddol ar blant yn ystod eu blynyddoedd cynnar. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y cymorth a roddir i Sefydliad Cenedlaethol Teuluoedd a Magu Plant ac amryw o sefydliadau gwirfoddol megis Home Start, Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn Ysgol a Mudiad Ysgolion Meithrin. Mae'r holl gyrff hyn, ac amryw eraill, yn derbyn cyllid gwerth £2.6 miliwn y flwyddyn gan gynllun grant y **Gwasanaethau Plant a Theuluoedd**. Caiff pwysigrwydd sylfaenol rhieni ei gydnabod hefyd yn y **Mentrau Llythrennedd a Rhifedd Teuluoedd**, sy'n mynd i gael eu ehangu fel y bydd 2300 o rieni a phlant yn ymwneud â'r mentrau erbyn mis Mawrth 2003. Mae'r Fenter Rhifedd Teuluoedd a'i chwaer gynllun, y Fenter Llythrennedd Teuluoedd, yn cael eu rhedeg gan yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol mewn cydweithrediad agos â phob un o'r AALlau yng Nghymru, eu hysgolion cynradd a cholegau addysg bellach. Cafodd y mentrau eu hanelu at rieni sydd â sgiliau sylfaenol gwael, ac sydd heb fawr o gymwysterau neu ddim o gwbl, a'u plant rhwng 3 a 6 oed. Rhoddir cymorth i rieni a phlant gaffael sgiliau llythrennedd a rhifedd. Yn ogystal, dangosir i rieni sut y gallant roi mwy o gymorth i'w plant gyda darllen, ysgrifennu a rhifo. Felly, mae'r cynlluniau'n helpu i atal trosglwyddo sgiliau sylfaenol gwael o genhedlaeth i genhedlaeth, ac mae llawer o rieni wedi cofrestru ar gyfer addysg bellach.

5. Mae pob rhiant eisiau peth help i ddygymod â'r dasg heriol o fagu plant. Ond mae rhoi sylw i'r ardaloedd mwyaf difreintiedig, lle ceir y rhwydweithiau cymorth ffurfiol ac anffurfiol gwannaf yn fynych, o fudd arbennig wrth leihau anfantais yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae'r rhaglen **Cychwyn Cadarn** yn canolbwyntio ar blant o enedigaeth i 4 oed, a'i nod yw gwella

iechyd, y gallu i ddysgu a datblygiad cymdeithasol y plant hyn yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae'n cysylltu â'r agenda eahangach o gynhwysiant cymdeithasol wrth i hithau gynnig cymorth i rieni ac annog gwella cymhwysedd a datblygu sgiliau magu plant. Mae amcanion y rhaglen yn cynnwys adnabod plant ag anawsterau emosiynol, ymddygiadol a dysgu yn gynnar a rhoi cymorth buan iddynt, cynorthwyo rhieni i hybu datblygiad iach eu plant, cymell chwarae ysgogol, gwella sgiliau iaith a gwneud y gwasanaethau'n fwy cymwys ar gyfer anghenion lleol. Cynllunnir y prosiectau gan bartneriaethau lleol, yn cael eu harwain gan awdurdodau lleol ac yn cynnwys yr NHS a'r sector gwirfoddol. Maent yn derbyn £11 miliwn o gyllid y Cynulliad ar gyfer 2000-2001.

6. Er bod Cychwyn Cadarn yn cael ei dargedu at gymunedau difreintiedig, mae'r Cynulliad yn bwriadu cynnig cyfleoedd dysgu blynyddoedd cynnar a gofal plant o safon uchel i bawb sydd eu hangen. Mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu cynllunio trwy gyfrwng 22 o **Bartneriaethau Datblygiad Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant** sy'n cael eu harwain gan lywodraeth leol ond sy'n cynnwys y sectorau anstatudol. Maent yn cynhyrchu cynlluniau datblygiad blynyddoedd cynnar a gofal plant lleol. Mae ganddynt dri amcan – cynllunio darpariaeth dysgu cynnar a fydd yn galluogi plant i elwa'n llawn ar addysg orfodol; darparu amgylcheddau diogel ac ysgogol lle gall plant dderbyn gofal pan fo'u rhieni'n gweithio neu'n cael hyfforddiant; a rhoi lleoliadau i blant lle gallant ddatblygu wrth chwarae'n anffurfiol. Mae eu gwaith gofal plant yn cael ei wneud yng nghyd-destun **Strategaeth Genedlaethol Gofal Plant**, sy'n derbyn £2.3 miliwn gan y Cynulliad. Mae £1.4 miliwn yn mynd i'r Partneriaethau a'r gweddill i gymorth a hyfforddiant ledled Cymru. Prif ffynhonnell y cyllid ar gyfer lleoedd gofal plant newydd yw'r **Gronfa Cyfleoedd Newydd**, sydd wedi dyrannu £14.3 miliwn dros 4 blynedd yn unol â tharged o:

*22,000 o leoedd gofal plant wedi eu cyllido gan y Loteri Genedlaethol i'w creu trwy'r Cynlluniau Datblygu Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar.*

7. Gall Gofal Plant helpu plant i elwa ar y Cwricwlwm Cenedlaethol ar ôl iddynt ddechrau yn yr ysgol drwy ddarparu cyfleoedd dysgu ar ôl ysgol neu yn ystod y gwyliau. Cyhoeddodd y Swyddfa Gymreig (y Cynulliad Cenedlaethol erbyn hyn) **'Datgloi Potensial'**, sef fframwaith ar gyfer estyn cyfleoedd dysgu amgen yng Nghymru. Yn ogystal, mae'r fframwaith yn cynnig arweiniad a chyngor ymarferol i bawb sy'n cymryd rhan mewn dysgu amgen, a elwir hefyd yn gymorth astudio. Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi dyrannu £13.3 miliwn dros 3 blynedd i hyrwyddo gweithgareddau cymorth astudio ledled Cymru. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd arian y loteri'n cael ei ddefnyddio i gyllido cymorth astudio mewn o leiaf hanner yr holl ysgolion uwchradd a chwarter yr holl ysgolion cynradd.

8. Bydd gwaith y Partneriaethau ar flynyddoedd cynnar yn cael ei roi oddi mewn i fframwaith newydd ar gyfer gwella darpariaeth addysgol i blant cyn-ysgol. Erbyn 2010, yn ôl Gwell Cymru:

*Dylai darpariaeth fod ar gael i bob plentyn cyn-ysgol 3 a 4 oed i hyrwyddo gofal plant ac addysg gynnar o safon.*

9. Mae'r ddarpariaeth statudol gyfredol yn gofalu bod yna le addysg o safon uchel sy'n rhad ac am ddim ac o leiaf hanner-amser ar gael yn ystod y tri thymor cyn dechrau addysg gorfodol ar gyfer pob plentyn 4 oed os yw'r rhieni'n dymuno hynny. Mae'r Pwyllgor Addysg Cyn 16 Oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar wedi adolygu polisi darpariaeth blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair oed, er na wnaed penderfyniadau terfynol hyd yn hyn. Caiff unrhyw drefniadau cynllunio penodol ar gyfer unrhwy estyniad yn y ddarpariaeth ei seilio ar archwiliad o'r ddarpariaeth gyfredol ar draws pob sector, a chynhelir yr archwiliad hwn yn ystod 2001-2002.

10. Unwaith y bydd plant yn dechrau derbyn addysg llawn-amser, maent yn rhan o flaenoriaeth Gwell Cymru i:

**Hybu safonau cyrhaeddiad ac addysgu ein hysgolion, yn arbennig y rhai hynny sy'n gwasanaethu ein cymunedau mwyaf difreintiedig.**

11. **Addysg ysgol** yw'r gwasanaeth cyffredinol canolog ym mywydau'r rhan fwyaf o blant. Mae'r mwyafrif helaeth mewn ysgolion prif-ffrwd, sydd fwyfwy yn cymryd cyfrifoldeb dros gynorthwyo plant sydd ag angen cymorth arbennig i gyflawni eu potensial. Dylid anelu at addysg gynhwysol mewn ysgolion prif-ffrwd oherwydd dyna'r ffordd orau i ddiwallu anghenion y plentyn unigol. Felly, mae'r gwasanaethau hyn i bawb yn cynnwys cymorth arbennig i blant sydd ag angen cymorth – y rhai ag anghenion addysgol arbennig a phroblemau ymddygiad a llawer o'r rhai sydd ag anableddau corfforol.

12. Erbyn hyn mae **Cynlluniau Strategol Addysg**, sy'n cwmpasu'r cyfnod o dair blynedd o fis Ebrill 1999, ar waith gan yr holl Awdurdodau Addysg Lleol. Mae'r cynlluniau, sy'n cael eu diweddaru bob blwyddyn a'u hadolygu'n llawn ar ddiwedd y cyfnod o dair blynedd, yn nodi'r blaenoriaethau allweddol i AALlau er mwyn codi safonau addysgol, ac esbonio sut y byddant hwy, ysgolion a phartneriaid eraill yn gweithio er mwyn cyflenwi'r blaenoriaethau hynny. Maent hefyd yn rhoi manylion am strategaeth yr AALlau ar gyfer nodi a chynorthwyo ysgolion sydd â ffaeleddau difrifol.

13. Mae trwch y cyllid ar gyfer addysg mewn ysgolion yn cael ei ddarparu trwy'r Grant Cynnal Refeniw i awdurdodau lleol. Cyfanswm cyfredol cyllideb addysg awdurdodau lleol yw £1,409 miliwn ar gyfer gwariant refeniw a £98.5 miliwn ar gyfer gwariant cyfalaf. Y Strategaeth ganolog ar gyfer addysg mewn ysgol yw'r rhaglen ***Adeiladu Ysgolion Ardderchog Gyda'n Gilydd (BEST)***, sy'n pwysleisio pa mor bwysig yw gwella safonau a darparu addysg a hyfforddiant, yr angen am bolisïau a fydd o fantais i lawer, ac nid i ychydig, ac ymdrin â than-berfformiad mewn ffyrdd arbennig.

14. Parthed plant ar gychwyn eu haddysg mewn ysgol, mae'r Cynulliad wedi addo na fydd unrhyw ddosbarthiadau iau â mwy na 30 o ddisgyblion erbyn 2001. Mae cyllid gwerth £13.5 miliwn ar gael i gynorthwyo'r ymdrechion i **leihau maint dosbarthiadau iau.**

15. Mae gosod targedau'n sail i ymagwedd BEST. Heb dargedau, ni fyddai'n bosibl monitro a yw pobl ifanc Cymru'n derbyn y cyfleoedd addysg y maent yn eu haeddu. Ni ddylai targedau fod yn rheswm dros gyfyngu'r dewis yn y cwricwlwm, ac ni ddylent ychwaith olygu bod anghenion ac anawsterau penodol rhai disgyblion yn cael eu hanwybyddu. Ond un o'r anghymwynasau mwyaf y gall plentyn ei ddioddef yw bod pobl yn disgwyl rhy ychydig ganddo. Mae'r targedau allweddol yn cynnwys:

*Dylai 70%-80% o ddisgyblion 11 a 14 oed gyrraedd y safonau disgwyliedig ym mhrofion y Cwricwlwm Cenedlaethol erbyn 2003.*

*Dylai 55% o ddisgyblion 15 oed gael o leiaf 5 TGAU â graddau A* i C, a dylai 90% gael o leiaf yr un nifer â graddau A* i G, erbyn 2003.*

*Gostwng nifer y plant sy'n gadael ysgol heb unrhyw gymwysterau fesul traean erbyn 2003.*

*Gostwng absenoldeb o'r ysgol i lai na 8% a chael traean yn llai o waharddiadau erbyn 2003.*

*Erbyn 2010, bydd yn rhaid i dros 90% o ddisgyblion sefyll arholiadau cyhoeddus, a dylai cyraeddiadau bechgyn fod cymaint yn well fel bod y bwlch rhwng bechgyn a merched yn llai na hanner yr hyn ydoedd.*

*Bydd yn rhaid sicrhau bod prosbectws allgyrsiol cryf ar gyfer pob plentyn erbyn 2010, a hwnnw'n cynnwys gweithgareddau diwylliannol, gwirfoddoli a mentro.*

*Ar gyfartaledd, dylai plant sy'n derbyn gofal gael o leiaf 5 TGAU erbyn 2010.*

16. Mae'n hanfodol fod yr ymdrechion i gyrraedd y targedau hyn yn cael eu monitro'n gyson. Mae Estyn yn arolygu ysgolion yn gynhwysfawr er mwy gwella safonau addysg yng Nghymru. Gwneir hyn drwy nodi cryfderau, neu wendidau, mewn ysgol a gwneud argymhellion adeiladol ar gyfer lledaenu arferion da a mynd i'r afael â ffaeleddau. Mae'r dystiolaeth a gesglir gan Estyn yn amhrisiadwy ar gyfer helpu i ddatblygu polisïau addysg a gwerthuso eu heffeithiolrwydd.

17. Mae'r gwasanaethau cyffredinol hyn yn cael eu cefnogi gan fesurau penodol i ddelio ag anghenion penodol rhai grwpiau o blant, fel y rhai sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig (SEN) neu sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol. Ym mis Ionawr 1999 cyhoeddwyd **Llunio'r Dyfodol ar gyfer Addysg Arbennig: Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymru** a oedd yn tynnu sylw at flaenoriaethau allweddol ar gyfer newid ac asesu'r ddarpariaeth ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig. Mae anghenion nifer o grwpiau sydd ag angen cymorth arbennig yn cael eu hymdrin gan **Grantiau Cynorthwyo Addysg a Hyfforddiant (GEST)**, sy'n werth cyfanswm o £50 miliwn (gan gynnwys cyfraniadau gan AALlau). Mae nodau rhaglen GEST yn cynnwys codi safonau a disgwyliadau ysgolion, athrawon a disgyblion; cael gwell arweiniad a chymorth gan athrawon; gwella perfformiad trwy ddefnyddio gwybodaeth technoleg gwybodaeth a chysylltiadau; cael dewis ehangach o gymwysterau i gynnwys cymwysterau galwedigaethol i blant o oed ysgol; hyrwyddo'r agenda ehangach o gynhwysiant cymdeithasol; a gwario arian yn

ddoeth. Mae ei 19 o feysydd targed yn cynnwys cymorth i blant dan 5 oed, gweithwyr ieuenctid a chymuned, anghenion addysgol arbennig (SEN), menter mynediad ieuenctid, codi safonau llythrennedd a rhifedd, addysg alwedigaethol a gyrfaoedd, cyrhaeddiad lleiafrifoedd ethnig, y gronfa datblygu cerddoriaeth, presenoldeb yn yr ysgol ac ymddygiad.

18. Mae anghenion addysgol y plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol â'u cerrig milltir eu hunain wrth iddynt geisio cyrraedd targed 2010 uchod:

- 50 % o'r plant sy'n derbyn gofal i gael o leiaf un cymhwyster TGAU neu GNVQ erbyn 2001, a 75 % erbyn 2003; a
- phlant sy'n gadael gofal i gael o leiaf gyfartaledd cyrhaeddiad addysgol y plant sy'n byw yn yr ardal.

19. Yn dilyn ymgynghori, cyn bo hir cyhoeddir canllawiau ynghylch gweithrediadau allweddol i geisio gwella canlyniadau addysg i blant sy'n derbyn gofal.

20. Gall y newid o ysgol i fathau eraill o addysg neu i hyfforddiant a/neu waith fod yn gyfnod o risg. Mae gormod o blant o hyd yn rhoi'r gorau i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn ystod eu harddegau, ac o ganlyniad maent mewn perygl o gael eu heithrio'n gymdeithasol weddill eu hoes. Cafodd dwy raglen eu llunio'n benodol i ymyrryd yn ddigon cynnar i fedru diddymu'r perygl hwn. Y ddwy raglen yw **Cronfa Bartneriaeth Plant ac Ieuenctid** a **Menter Mynediad Ieuenctid.**

## Targed Gwell Cymru

*Mentrau lleol i hybu cyraeddiadau addysgol pobl ifanc gan ddefnyddio cyfran o'r £25 miliwn* o Gronfa Bartneriaeth Plant ac Ieuenctid.*

- *cyllid ar gael am 3 blynedd

21. Mae prif bwyslais Cronfa Bartneriaeth Plant ac Ieuenctid ar wasanaethau i'r rhai dros 11 oed, ond gall hyn gynnwys plant mor ifanc ag 8 oed os oes angen cymorth lleol. Mae'r fenter yn ceisio datblygu ffyrdd i wella cyraeddiadau addysgol pobl ifanc a'u denu oddi wrth drosedd, cyffuriau, fandaliaeth a thriwantiaeth. Yn benodol, ei nod yw annog plant a phobl ifanc i fod yn annibynnol a datblygu ymdeimlad o gyrhaeddiad cymunedol a phersonol. Cydlynir y gronfa trwy bartneriaethau lleol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol, yr NHS a'r sector gwirfoddol, ac mae'n derbyn £11 miliwn gan y Cynulliad yn 2000-2001 (gan gynnwys £1m ar gyfer Chwarae 2000 – gweler isod).

22. Mae gan **Fenter Mynediad Ieuenctid** amcan tebyg, sef denu pobl ifanc 14-17 oed yn ôl i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae'r TECau'n darparu gwerth £2 miliwn o brosiectau, gyda chymorth partneriaid yn y sector gwirfoddol, ac mae arian ychwanegol ar gyfer gwaith mewn ysgolion yn cael ei ddarparu trwy GEST (gweler uchod). Am fod yr amcan mor debyg i'r Gronfa Bartneriaeth Plant ac Ieuenctid, bydd y Fenter Mynediad Ieuenctid yn cael ei chyfuno â'r Gronfa o fis Ebrill 2001.

23. **Mae rhaglenni Cronfa Strwythurol Ewrop - Amcan 1 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ac Amcan 3 Dwyrain Cymru** – yn cydnabod yr angen i ddatblygu rhaglenni cyffredinol a gafodd eu targedu er mwyn helpu i sicrhau fod plant a phobl ifanc yn trosglwyddo'n llwyddiannus o addysg i waith. Er mwyn bod yn effeithiol, mae angen anelu'r cymorth hwn at y grwpiau cyn-16 oed yn ogystal â'r rhai ôl-16 oed a bydd y ddwy raglen yn cynorthwyo gweithredu penodol, oddi mewn i'r amgylchedd addysg, i atal annheyrngarwch ymhlith plant a phobl ifanc a'u paratoi ar gyfer bywyd fel oedolion a gwaith. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol i'r difreintiedig (gan gynnwys y rhai sy'n gadael gofal neu sydd â chyfrifoldebau gofal) a phlant annheyrngar. Mae'r cronfeydd yn cydnabod fod yr angen sylfaenol i gynorthwyo plant a phobl ifanc i fod yn ddinasyddion da yn ffactor pwysig wrth roi cymorth iddynt gael mynediad i'r farchnad waith. Bydd ystod eang o weithgareddau'n gymwys ar gyfer y cymorth, gan gynnwys:

- prosiectau i gryfhau'r cysylltiadau rhwng addysg a'r sectorau gwirfoddol/cymunedol;
- hyfforddiant cyn-alwedigaethol, gan gynnwys cyfleoedd i fod yn fwy cymwys ar gyfer gwaith, gwella brwdfrydedd, hyder a hunan-barch;
- rhaglenni profion gwaith
- rhaglenni mentora a gwaith cenhadol;
- prosiectau i gael cyfranogiad gan blant a phobl ifanc annheyrngar neu'r rhai sydd mewn perygl o fod yn annheyrngar, er enghraifft mewn ysgolion a cholegau, ac a allai gynnwys cyfuniad o weithgareddau academaidd/addysgol a galwedigaethol a gweithgareddau allgyrsiol;
- cymorth i ymagweddau partneriaethau aml-asiantaethol a mesurau cymhwysedd a hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr.

24. Bydd mesurau Amcan 1 a 3 yn datblygu polisïau a rhaglenni cyfredol sy'n helpu pobl ifanc i gael gwaith ac sy'n hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a dinasyddiaeth dda.

25. Bydd cyrff gweithredu'n cynnwys awdurdodau lleol, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, ysgolion a cholegau, cyrff sector cyhoeddus, sefydliadau hyfforddi, y sector preifat ac undebau llafur.

26. Wrth i fwy o bobl ifanc symud o'r ysgol i weithgareddau eraill, daw eu hanghenion oddi mewn i flaenoriaeth Gwell Cymru:

**Buddsoddi mewn mewn pobl a dysgu gydol oes er mwyn i bawb, ac yn arbennig ein pobl ifanc, ddysgu'r ystod o wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni eu potensial a ffynnu yn yr economi newydd.**

27. Mae'r dasg o ddewis gwaith priodol, hyfforddiant neu addysg barhaol yn un o ddigwyddiadau tyngedfennol bywyd, ac mae rôl y Gwasanaeth Gyrfaoedd yn hollbwysig i'r holl bobl ifanc wrth iddynt ddynesu at ddiwedd addysg ysgol orfodol. Ar hyn o bryd, mae £14.9 miliwn yn cael ei wario ar y Gwasanaeth Gyrfaoedd. Mae cysylltiadau busnes-addysg – gan gynnwys profiad gwaith, cyfleoedd dysgu am fusnes a menter a chymorth gan y cyflogwr er

mwyn cyflenwi'r cwricwlwm yn derbyn cymorth gwerth £3.6 miliwn gan y Cynulliad sy'n cael ei ddarparu trwy'r Cynghorau Hyfforddiant a Menter.

28. Mae cyfarwyddyd ar yrfa a phrofiad gwaith yn wasanaethau cyffredinol a all fod o ddefnydd i bawb, ond mae rhai pobl ifanc ag angen cymorth mwy arbenigol. Mae hwn ar gael gan Borth Ieuenctid, sy'n ceisio helpu'r bobl ifanc sydd ag angen cymorth ychwanegol i fynd ymlaen i addysg o safon dda, hyfforddiant neu waith sydd fwyaf addas i anghenion yr unigolyn. Daw'r cyllid ar hyn o bryd, sef £3.3 miliwn a ddarperir gan y Cynulliad, trwy'r cynghorau hyfforddiant a menter (TECau). Bydd Gyrfaoedd Cymru, a sefydlir ym mis Ebrill 2001, yn casglu ynghyd cymorth y Cynulliad ar gyfer y Gwasanaeth Gyrfaoedd, elfennau o gysylltau addysg a busnes a'r Porth Ieuenctid. Bydd cwmnïau newydd Gyrfaoedd Cymru'n gweithio gyda phobl ifanc a phartneriaid lleol i sicrhau fod gan yr holl bobl ifanc gyfle i gael gwybodaeth ddiduedd ac annibynnol ynghylch penderfynu ar yrfa ac addysg.

29. Mae **Rhywbeth i Bawb yw Dysgu (LIFE)** yn chwarae'r un rôl ar gyfer dysgu ar ôl oedran gadael ysgol ag ydyw BEST ar gyfer addysg ysgol. Mae'n nodi Strategaeth Ddysgu Genedlaethol i Gymru, sy'n cynnwys gwell mynediad i wybodaeth a darpariaeth; mesurau newydd i gynyddu ac ehangu cyfranogiad; fframwaith cymwysterau sengl sy'n hyblyg ac yn berthynol i gredydau ac sy'n rhychwantu pob addysg ôl-16; targedau newydd ar gyfer dysgu, a chryfhau cydweithio, cydweithredu a phartneriaeth ar lefelau lleol, rhanbarthol a Chymru-gyfan.

30. Dilynwyd LIFE gan y Cynllun Gweithredu Addysg a Hyfforddiant, sy'n ei ddatblygu ac sy'n argymell creu Gyrfaoedd Cymru fel gwasanaeth i bob oedran a fydd yn cynnig cymorth a chyngor ynghylch dysgu a gyrfaoedd, a Chyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant i lywio addysg bellach a hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol.

31. Mae Gwell Cymru'n cynnwys y targedau a ganlyn mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredu Addysg a Hyfforddiant:

*Lleihau nifer y bobl ifacn 16-18 oed sydd heb gymwysterau i ryw un o bob 20 erbyn 2003;*

*15% o gyrsiau addysg bellach i gyrraedd y safon uchaf (Gradd 1); 80% i gyrraedd Gradd 1 neu 2 erbyn 2003;*

*Erbyn 2010, dylai addysg a hyfforddiant fod yn fwy hygyrch o lawer. Dylai pob disgybl sy'n gadael yr ysgol fod yn symud ymlaen i addysg bellach neu addysg uwch neu'n cael hyfforddiant mewn gwaith. Dylai bron bob person ifanc sydd rhwng 16 a 18 oed fod â chymwysterau TGAU neu gymwysterau galwedigaethol cyfatebol;*

*Bydd gan awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol wasanaethau ieuenctid integredig a datblygedig.*

32. Er mwyn cynorthwyo'r targedau hyn, ar hyn o bryd mae'r Cynulliad yn darparu £75 miliwn i TECau er mwyn cyllido **hyfforddiant sy'n seiliedig ar waith** i Bobl Ifanc, sy'n cynnwys y rhaglen

Prentisiaethau Modern, a £213.6 miliwn i'r sector **addysg bellach** trwy'r Cyngor Cyllido Addysg Bellach. Er mwyn helpu i wneud yn siŵr fod dysg pobl ifanc yn diwallu anghenion cyflogwyr, mae'r Cynulliad wedi arwain partneriaeth i ymgymryd â phrosiect Sgiliau Dyfodol Cymru ac wedi penodi Tasglu Sgiliau, a bydd hefyd yn paratoi **Cynllun Gweithredu Sgiliau** fel rhan o Strategaeth Ddatblygu Economaidd.

33. Yn olaf, mae Gwell Cymru'n cydnabod, er mor hanfodol yw ennill sgiliau i ddod o hyd i waith, fod dysgu'n golygu llawer iawn mwy na hyn. Mae'n cynnwys y flaenoriaeth i

**Hyrwyddo dinasyddiaeth weithredol, creadigrwydd a mentergarwch.**

34. Mae'r Cynulliad wedi gosod y targedau a ganlyn yn unol â'r flaenoriaeth uchod:

*Sicrhau bod mwy o bobl yn cymryd rhan mewn gweithredu gwirfoddol a chymunedol: yn enwedig cael mwy o'n pobl ifanc i gymryd rhan ym mywydau ein cymunedau trwy rwydwaith rhyngweithiol o gynghorau ieuenctid sy'n seiliedig ar y Rhyngrwyd, sefydlu 'Llais Ieuenctid' i gynghori'r Cynulliad a thrwy sicrhau bod pob ysgol yn rhoi mwy o bwyslais ar ddinasyddiaeth weithredol.*

*Fframwaith newydd i gael ei ddatblygu i fynd i'r afael ag eithrio pobl ifanc ar sail ymagwedd integredig at gynorthwyo pobl ifanc.*

*Rhagor o gymorth i ddatblygu sgiliau dwyieithrwydd a sgiliau ieithyddol eraill ar gyfer mwy o'n plant a'n pobl ifanc.*

35. Mae'r adroddiad Ymestyn Hawliau - cymorth i bobl ifanc yng Nghymru yn gwneud nifer o argymhellion i gefnogi'r flaenoriaeth hon, gan gynnwys y rhai a ganlyn:

- dylai cymorth i bobl ifanc yng Nghymru fod yn seiliedig ar **hawl i'r holl bobl ifanc** gael amrywiaeth o wasanaethau i hyrwyddo eu cyrhaeddiad a'u datblygiad fel unigolion;
- ym mhob ardal llywodraeth leol dylid cael **strategaeth pobl ifanc**, wedi ei chytuno a'i chyflenwi ar y cyd gan yr asiantaethau statudol a gwirfoddol, i greu **rhwydwaith o gymorth a chyfle** a fydd ar gael i bob person ifanc yn yr ardal;
- dylai'r strategaeth hon geisio cynorthwyo'r holl bobl ifanc yng Nghymru i gyflawni eu potensial wrth **gymryd rhan yn llwyddiannus** mewn addysg, hyfforddiant a gwaith a thrwy **gyfrannu fel dinasyddion** yn eu cymunedau a thu hwnt.

36. Dylai chwarae a ffurfiau mwy ffurfiol o adloniant corfforol fod yn elfen normal o fywyd plant a phobl ifanc. Mae gofal y tu allan i'r ysgol yn derbyn cymorth o dan y Strategaeth Gofal Plant Genedlaethol sy'n rhoi cyfle gwerthfawr ar gyfer chwarae anffurfiol, ond nid pob plentyn sy'n mynychu lleoliadau o'r fath. Mae'r Cynulliad wedi cydnabod gwerth chwarae trwy ddarparu £1 miliwn ar gyfer y cynllun **Chwarae 2000**, fel rhan o Gronfa Bartneriaeth Plant ac Ieuenctid (gweler paragraff 20 uchod), i wella cyfleusterau chwarae mynediad-agored mewn ardaloedd difreintiedig. Mae peth o'r arian yn cael ei ddefnyddio ar gyfer astudiaeth o chwarae yng Nghymru, a fydd yn destun adroddiad i'r Cynulliad yn yr hydref ac a fydd yn sail i bolisi yn y dyfodol.

37. Er bod gweithgareddau anffurfiol mewn lleoliadau megis caeau chwarae antur yn gallu bod yn ddeniadol hyd yn oed i bobl ifanc yn eu harddegau, wrth i blant dyfu mae tuedd iddynt fod ag angen adloniant mwy ffurfiol. Mae llawer o ddarpariaethau o'r fath yn cael eu cynnig gan y sector gwirfoddol, megis y Geidiau, y Sgowtiaid a chlybiau bechgyn a merched. Mae eraill yn cael eu cynnig trwy **wasanaethau ieuenctid yr awdurdodau lleol**. Ar hyn o bryd, mae'r Cynulliad yn rhoi cymorth i'r gwasanaethau hyn trwy gyfrwng Grant Cynnal Refeniw. Hefyd, mae grantiau gwerth oddeutu £1.2 miliwn yn cael eu rhoi i'r Ysgolion Uwchradd a'r Rhaglen Gwaith Ieuenctid (ystod o brosiectau sy'n dod ag ysgolion a gweithwyr ieuenctid at ei gilydd er mwyn cael pobl ifanc 11 i 16 oed a gafodd eu heithrio, neu sydd mewn perygl o gael eu heithrio, i gyfranogi unwaith eto); i gynorthwyo gweithgareddau canolog 17 o sefydliadau ieuenctid gwirfoddol Cymru-gyfan, gan gynnwys hyfforddiant priodol ar gyfer eu gweithwyr ieuenctid; ac ar gyfer rhaglenni prif-ffrwd Asiantaeth Ieuenctid Cymru.

38. Mae cynlluniau eraill i ysgogi cyfranogiad mewn chwaraeon a'r celfyddydau'n cael eu darparu gan **Gynghorau Chwaraeon a Chelfyddydau Cymru**. O'i gymharu â rhannau eraill o'r DU a'r rhan fwyaf o wledydd Ewrop, mae iechyd pobl Cymru'n wael. Mae diffyg ymarfer corff yn gysylltiedig ag afiechydon y galon, gorbwysedd, clefyd siwgr nad yw'n ddibynnol ar inswlin, gordewdra ac osteoporosis. Gall annog gweithgareddau chwaraeon ymhlith plant a phobl ifanc arwain at arferion ymarfer iachach gydol oes. Gall chwaraeon gyfrannu hefyd at gydlyniad ac adfywiad cymdeithasol. Mae gan y Cyngor Chwaraeon dargedau i sicrhau bod:

*55% o blant 7-11 oed a 57% o bobl ifanc 11-16 oed yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol erbyn 2003.*

39. Mae'r Cyngor Chwaraeon wedi cynhyrchu **Strategaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru: Pobl Ifanc yn Gyntaf**. Mae'n cynnwys y fenter *Dragon Sport*, sy'n ceisio cyflwyno plant 7-11 oed i amrywiaeth o chwaraeon pleserus a gafodd eu trefnu'n dda, a gwneud defnydd o adnoddau, cyflogedig a gwirfoddol, i gynnal gweithgareddau chwaraeon trwy gyfrwng clybiau y tu allan i'r ysgol. Mae **Clwb Cymru** yn fenter sy'n sefydlu cysylltiadau rhwng ysgolion a chlybiau chwaraeon er mwyn cael dilyniant naturiol o un i'r llall. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi sefydlu tasglu i archwilio addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion. Bydd hyn yn ystyried ffyrdd o ddatblygu'r arferion da sy'n bodoli, gwella safonau perfformiad ac ehangu cyfranogiad mewn gweithgareddau allgyrsiol.

40. Mae **Tasglu Celfyddydau a Phobl Ifanc Cymru** yn ceisio sicrhau bod holl ysgolion Cymru'n mabwysiadu polisi ar gyfer datblygu'r celfyddydau. Ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, bydd yn datblygu canllawiau i ysgolion ynghylch llunio a gweithredu elfen o bolisi celfyddydau yng nghynlluniau ysgolion. Y nod dros y cyfnod 1999-2002 yw cael awdurdodau addysg lleol a chyrff proffesiynol i dderbyn y canllawiau. Y nod arall yw cael polisïau celfyddydau mewn 25% o'r ysgolion erbyn 2002.

## GWELL ECONOMI, ECONOMI GRYFACH

41. Mae'r Cynulliad yn bwriadu creu economi flaengar, ddeinamig a mwy amrywiol. Mae'r fframwaith strategol hwn yn ymwneud â phobl ifanc hyd at 18 oed. Yn ystod y cyfnod dan sylw bydd ganddynt hyd at ddwy flynedd i gymryd rhan mewn gwaith. Fodd bynnag, nid yw hynny'n

golygu fod thema'r economi'n amhriodol i bobl ifanc. Cyfraniad allweddol y gwasanaethau i blant a phobl ifanc yw gofalu eu bod i gyd yn cael yr addysg a'r sgiliau angenrheidiol i gyfranogi yn yr economi. Mae economi fywiog sy'n amlwg yn cynnig cyfle ar gyfer swyddi sy'n rhoi boddhad, yn ffactor ysgogol pwysig, ond mae angen hefyd i ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n symbylu ac yn cymell pobl ifanc, gan gynnwys y rhai sydd ar y cyrion a'r rhai sydd ag anableddau, i gyfranogi. Yn olaf, mae ffyniant economaidd yn gwneud rhieni'n fwy cymwys i gynnig cymorth a chyfle i'r plant.

42. O blith meincnodau Gwell Cymru, yr un mwyaf perthnasol o dan y pennawd hwn yw:

*O ledaenu ffyniant i bob cwr o'n gwlad, dylid gallu sicrhau bod dewis rhesymol o waith sy'n rhoi boddhad ar gael i fwy o'n pobl ifanc o fewn cyrraedd rhesymol i'w cymunedau.*

## GWELL IECHYD A LLES

43. Mae'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol – fel addysg - yn wasanaeth i bob plentyn. Mae pob plentyn yn debygol o ddod i gysylltiad â'r NHS, a gwasanaethau'r NHS yw'r unig wasanaethau sydd ar gael i bob plentyn o oedran cyn-ysgol. Mae'r gwasanaethau perthnasol yn cynnwys gofal cyn-geni a gwasanaethau mamolaeth, gwasanaethau meddyg teulu ac ymwelydd iechyd, gwasanaethau iechyd plant cymunedol a gwasanaethau sy'n seiliedig ar ysbyty. Mae cael mwy o degwch a gwell mynediad yn ddwy agwedd allweddol ar ddatblygiad y gwasanaethau iechyd. Yn ddiweddar, cyhoeddwyd y gwneir adolygiad o'r gwasanaethau ysbyty tra arbenigol i blant (gwasanaethau trydyddol), gan gynnwys gofal newydd-enedigol dwys, a chyhoeddir adroddiad ym mis Mehefin 2001.

44. Mae'r Cynulliad, yn unol â'r hyn a amlinellwyd yn Gwell Cymru, yn bwriadu mynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd afiechyd, gan gynnwys tai gwael, y straen o fyw mewn cymunedau difreintiedig, ac incwm isel sy'n gysylltiedig â diweithdra. Mae'n ymdrin â gwell iechyd a lles o dan y themâu a ganlyn:

*Gwella iechyd a lleihau anghydraddoldeb o safbwynt iechyd drwy fynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd afiechyd a gwella mynediad.*

45. Mae'r targedau perthnasol sy'n unol â'r flaenoriaeth hon yn cynnwys:

*Gwelliant mesuradwy yn iechyd pobl mewn ardaloedd allweddol, drwy barhau i weithredu Rhaglen Gwell Iechyd - Gwell Cymru a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig;*

*Rhaglenni gweithredu lleol sy'n rhan o'r rhaglen Cychwyn Cadarn, sy'n cynorthwyo rhieni a phlant cyn-ysgol mewn ardaloedd difreintiedig, i fod yn llwyr weithredol erbyn 2000;*

*Mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau drwy roi Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru ar waith;*

*Rhoi strategaethau Cymreig newydd ar waith ym maes iechyd meddwl plant, pobl ifanc ac oedolion.*

46. Roedd **Gwell Iechyd – Gwell Cymru**, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gymreig yn 1998, yn rhestru nodau ar gyfer iechyd cynaliadwy wrth weithredu ar y cyd. Nododd fod iechyd plant yn ddangosydd pwysig o iechyd yn ddiweddarach mewn bywyd, a bod llawer o iechyd gwael ymhlith oedolion yn cael effaith niweidiol ar iechyd eu plant. Cyfeiriodd yn ôl at *Iechyd Plant yng Nghymru* (a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gymreig yn 1997), sef datganiad o bolisi a chyngor a oedd yn bodoli mewn perthynas ag arferion da wrth ymdrin â materion iechyd plant. Roedd *Iechyd Plant yng Nghymru* yn nodi'r angen i ystyried plentyn yn ei gyfanrwydd ac i integreiddio gofal ar draws yr ystod eang o ddisgyblaethau – y sectorau iechyd, cymdeithasol, addysg ac annibynnol – mewn ymateb i anghenion a gafodd eu hasesu.

47. Dilynwyd **Gwell Iechyd - Gwell Cymru** gan fframwaith strategol a oedd yn cyflwyno'r nod 'I sicrhau fod plant a phobl ifanc yn cyflawni eu potensial'. Nodwyd taw gwasanaethau plant awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau a'r gwasanaethau ieuenctid a fyddai'n ei roi ar waith. Hefyd, nodwyd amryw o gyfryngau eraill. Ymdrinnir â rhai, gan gynnwys Cychwyn Cadarn a'r Strategaeth Gofal Plant, o dan 'Gwell Cyfleoedd Dysgu' uchod. Mae'r cyfryngau eraill yn cynnwys y fenter **Ysgolion Iach**, sy'n helpu ysgolion i fod yn gyrff hybu iechyd, ac sydd â chyllideb o oddeutu £500k y flwyddyn tan 2004, safonau maeth ar gyfer prydau bwyd ysgol a mentrau gydag Asiantaeth Ieuenctid Cymru i wella gwaith hybu iechyd y gwasanaethau ieuenctid.

48. Cafodd sail menter **Cychwyn Cadarn** ei ddisgrifio uchod. Ei nod yw darparu cymorth integredig ar gyfer iechyd ac addysg y plant ieuengaf yn y cymunedau mwyaf difreintiedig.

49. Targed Gwell Cymru:

*Rhoi gwell cychwyn mewn bywyd i blant o gefndiroedd difreintiedig drwy raglen Cychwyn Cadarn sy'n werth £25 miliwn**

* cyllid ar gael am dair blynedd

50. Mae targedau Cychwyn Cadarn sy'n benodol berthnasol i wella iechyd yn cynnwys:

- Lleihau cyfran y babanod sy'n ysgafn pan gânt eu geni (h.y. yn pwyso llai na 2,500 gram), a defnyddio canran cychwynnol o 7.4% (1998) yng Nghymru;
- Lleihau nifer y plant sy'n cael eu cymryd i'r ysbyty ar frys yn ystod blwyddyn gyntaf eu bywyd am eu bod yn dioddef o gastro-enteritis, haint resbiradol, neu anaf difrifol.

51. Mae pryder ynghylch y blynyddoedd cynharaf yn cael ei adlewyrchu hefyd yn y **Strategaeth Bwydo o'r Fron**, sef menter i gymell mwy o fwydo o'r fron yng Nghymru. Fel rhan o'r fenter, mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn rhoi cymorth i fenywod a'r nod yw lleihau'r anghysonderau iechyd presennol a chau'r bwlch rhwng yr ardaloedd lle ceir lleiaf o fwydo o'r fron a'r ardaloedd lle ceir y cyfran uchaf.

52. Mae'r **Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau** *Delio â Chamddefuyddio Sylweddau yng Nghymru*, y Dull Partneriaeth, yn pwysleisio'r angen i gynorthwyo plant a phobl ifanc sy'n gwrthsefyll y camddefnydd o sylweddau ac alcohol.

53. Ar hyn o bryd mae'r Cynulliad yn ymgynghori ynghylch Strategaeth ddrafft **Iechyd Meddwl Plant a Phobl Adolesent** a luniwyd gan Grŵp Ymgynghorol annibynnol. Mae'r drafft yn cwmpasu'r holl bwnc o iechyd meddwl pobl ifanc, ond mae'n werth tynnu sylw at un agwedd ar waith y Grŵp. Wrth baratoi'r drafft, trefnodd y Grŵp Ymgynghorol gyflwyniadau gan arbenigwyr yr oedd eu gwaith ymchwil wedi dangos yn glir pa mor werthfawr, i unigolion ac i gymdeithas yn gyffredinol, yw ymyrraeth gynnar ar gyfer plant sydd â phroblemau emosiynol ac ymddygiadol a phroblemau meddwl eraill. Yn arbennig, mae ymyrraeth gynnar a deallus yn help i atal y cylch anfad o unigedd, eithrio cymdeithasol, troseddu a phroblemau anhwylder meddwl eraill mwy difrifol a hirdymor. Ar ôl derbyn sylwadau a'u gwerthuso, bydd y Cynulliad yn penderfynu sut orau i ddatblygu'r Strategaeth.

54. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol hefyd wedi sefydlu Grŵp Ymgynghorol allanol ar gyfer Anabledd Dysgu er mwyn paratoi fframwaith gwasanaeth drafft ar gyfer pobl (gan gynnwys plant) sydd ag anabledd dysgu. Bydd y Grŵp hwn yn adeiladu ar y nodau ac amcanion sydd yng Nghanllawiau Strategaeth Anfantais Meddyliol y Swyddfa Gymreig, a gyhoeddwyd ym 1994, er mwyn cynhyrchu argymhellion ar sut i roi darlun clir i bobl sydd ag anabledd dysgu, eu teuluoedd a'u cynhalwyr, o'r gwasanaethau a'r cymorth y mae ganddynt hawl i'w derbyn wrth awdurdodau statudol. Disgwylir adroddiad y Grŵp Ymgynghorol i'r Cynulliad ym mis Mawrth 2001, a bydd y Cynulliad yn ymgynghori ar argymhellion y grŵp.

55. Mae'r cyfraddau uchel o feichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau a'r cynnydd ymhlith pobl ifanc mewn heintiadau a drosglwyddir gan ryw yn destun pryder yng Nghymru. Mae'r Cynulliad yn mynd i'r afael â hyn trwy gyfrwng **Fframwaith strategol i hyrwyddo iechyd rhywiol yng Nghymru** sy'n amlinellu nifer o argymhellion i ofalu bod pobl ifanc, yn enwedig y rhai sydd mewn mwyaf o berygl, yn derbyn addysg effeithiol ynghylch rhyw, a bod ganddynt fynediad i wasanaethau sy'n cynnig gwybodaeth a chyngor am iechyd rhywiol.

**Gwella ansawdd ac ymatebolrwydd gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd drwy gyrff sy'n ariannol gynaliadwy.**

56. Mae'r amcanion sy'n cefnogi'r flaenoriaeth hon yn cynnwys y rhai a ganlyn:

*Gwella gofal iechyd hirdymor a chymdeithasol drwy sefydlu Arolygiaeth Safonau Gofal, system gofrestru newydd ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd, llunio canllawiau ar fynediad teg i ofal, a meithrin cysylltiadau gweithio da â'r Comisiwn Hawliau Anabledd;*

*Hyrwyddo hawliau plant drwy benodi Comisiynydd Plant;*

*Gwella lles a chyraeddiadau addysgol yr holl blant mewn angen, gan gynnwys y plant hynny sy'n derbyn gofal yr awdurdodau lleol, drwy roi rhaglen Plant yn Gyntaf ar waith, a fydd hefyd yn amddiffyn plant mewn gofal rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso;*

*Gwella iechyd a lles y 35,000 o ofalwyr yng Nghymru, drwy roi'r Strategaeth Gofalwyr ar waith.*

57. Mae gweithredu Deddf Safonau Gofal 2000 gan y Cynulliad yn cynnwys sefydlu Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru. O fis Ebrill 2002, bydd yr Arolygiaeth Safonau Gofal yn gyfrifol am archwiliadau statudol o'r gwasanaethau mabwysiadu a maethu, y gwasanaethau anheddol a chartrefi preswyl a nyrsio. Bydd hyn yn cynnwys rheoli cartrefi bach i blant, sydd, yn ôl telerau'r Ddeddf, i fod i gofrestru ym mis Ionawr 2001.

58. Bydd yr Arolygiaeth Safonau Gofal yn gyfrifol hefyd am reoleiddio gwasanaethau gofal-dydd i blant dan wyth oed, ac am archwilio'r ddarpariaeth les mewn ysgolion preswyl annibynnol a'r rhai a gynhelir. Ym mhob achos, bydd yn gweithio'n glos gydag Estyn.

59. Mae creu'r swydd o Gomisiynydd Plant yn hanfodol i'r strategaeth hon. Felly, ymdrinnir â'r mater ym Mhennod 4 uchod.

60. Mae rhaglen **Plant yn Gyntaf** yn ceisio gofalu bod plant mewn angen a phlant sy'n derbyn gofal yn cael gwell cychwyniad mewn bywyd, trwy gyfrwng mesurau i hyrwyddo eu hiechyd, hybu eu datblygiad cymdeithasol yn gywir, gwella eu cyraeddiadau addysgol a'u diogelu rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Y prif elfennau yw:

- amcanion newydd ar gyfer gwasanaethau plant gyda dangosyddion perfformiad sy'n berthynol i ganlyniadau clir ar gyfer plant;
- targedau wedi eu gosod ar lefel Cymru-gyfan neu'n lleol yn ôl pob PI;
- partneriaeth rhwng y Cynulliad a llywodraeth leol;
- rôl bwysig i aelodau etholedig o'r awdurdodau lleol.

61. Lansiwyd **Safonau Cenedlaethol ar gyfer Gofal Maeth** yng Nghymru ym mis Tachwedd y llynedd, gan gyflwyno 25 o safonau sy'n cwmpasu anghenion a hawliau plant, darparu gofal effeithiol a phriodol gan ofalwyr maeth a darparu gwasanaethau gofal maeth o ansawdd uchel gan awdurdodau lleol.

62. Bydd y **Mesur Plant (Gadael Gofal),** pan ddaw i rym, yn cyflwyno trefniadau newydd o fis Ebrill 2001 i gynorthwyo'r rhai sy'n byw i mewn ac sy'n gadael gofal awdurdod lleol. Mae'n gosod dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol i ddarparu gofal a chymorth i fyny at 21 oed.

63. Mae dyletswyddau **Diogelu Plant** yn cael eu cyflawni trwy'r Pwyllgor Amddiffyn Plant Ardal (ACPC), sef fforwm rhyng-asiantaethol sy'n penderfynu sut y dylai'r gwahanol wasanaethau a grwpiau proffesiynol gydweithredu er mwyn diogelu plant yn yr ardal honno, ac

sy'n gofalu bod y trefniadau'n gweithio'n effeithiol ac yn dod â chanlyniadau da i'r plant. Dylai'r ACPC gyfrannu at, a gweithio oddi mewn i'r fframwaith a sefydlwyd gan gynllun gwasanaethau plant y Gwasanaethau Cymdeithasol. Dylent fod â rôl glir parthed nodi'r plant hynny mewn angen sydd mewn perygl o niwed sylweddol, neu sydd wedi dioddef niwed sylweddol, a pharthed nodi bylchau mewn adnoddau – o ran cyllid a/neu gyfraniad gwahanol asiantaethau – a gwell ffyrdd o weithio.

64. Mae **Deddf Diogelu Plant 1999** yn creu fframwaith ar gyfer adnabod pobl sy'n anaddas i weithio gyda phlant. Disgwylir y bydd rheoliadau ar gyfer Cymru a Lloegr, a fydd yn rhagnodi'r sefydliadau a fydd yn atebol i'r Ddeddf ac a fydd yn rheoleiddio gweithredu tribiwnlys apêl, yn dod i rym yn ystod mis Hydref. Mae darpariaethau'r **Mesur Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys**, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yn cynnwys gwaharddiad ar bobl a gafwyd yn euog o droseddau penodol rhag gweithio gyda phlant. Disgwylir y bydd y Mesur yn dod i rym ym mis Medi. Bydd y **Swyddfa Cofnodion Troseddol**, a fydd yn gwasanaethu Cymru a Lloegr, yn darganfod pa mor addas yw pobl i weithio gyda phlant. Bydd y Swyddfa'n dechrau gweithredu yn 2001.

65. Mae gan adrannau'r **Gwasanaethau Cymdeithasol** gyfrifoldeb nid yn unig i ddarparu gwasanaethau ond hefyd i eiriol ar ran y plant y maent yn gyfrifol amdanynt, gan ddod o hyd i'r gwasanaethau angenrheidiol ar eu rhan. Caiff trwch yr arian ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol i blant ei ddarparu trwy'r Grant Cynnal Refeniw. Yn eu crynswth, mae cyllidebau'r awdurdodau lleol ar gyfer y gwasanaethau hyn eleni yn werth £613 miliwn. Oddi ar 1999-2000, mae hyn wedi cynnwys £5 miliwn y flwyddyn ar gyfer Plant yn Gyntaf. Ar gyfer 2000-01, gwnaed hi'n bosibl i awdurdodau lleol wario cyfanswm o £48 miliwn, ac mae'r Cynulliad wedi pwysleisio ei fod yn disgwyl i draean (£16 miliwn) o hyn gael ei wario ar wasanaethau plant. Yn olaf, rhoddwyd £3 miliwn ychwanegol o grant penodol i awdurdodau lleol i'w cynorthwyo i roi Plant yn Gyntaf ar waith yn 2000-01.

66. Mae'r **Strategaeth Cynhalwyr** yn cynnig argymhellion i ymdrin ag anghenion oedolion sy'n gofalu am blant anabl yn ogystal ag ymdrin ag anghenion plant a phobl ifanc sy'n gynhalwyr eu hunain. Mae'n comisiynu asesiad annibynnol o anghenion cynhalwyr ifanc ac yn codi ymwybyddiaeth ohonynt fel plant mewn angen ac yng nghyd-destun rhaglen Plant yn Gyntaf.

## GWELL ANSAWDD BYWYD

67. Mae'r Cynulliad yn ceisio gwella ansawdd yr amgylchedd, ei gwneud yn haws i bobl fwynhau adloniant a diwylliant, a chynnig mwy o ddewis o ran trafnidiaeth sy'n gyfleus a fforddiadwy. Mae'r Cynulliad hefyd yn ymrwymedig i drawsnewid y cymunedau mwyaf difreintiedig yn lleoedd lle byddai pawb yn dymuno byw.

68. Ein blaenoriaeth gyntaf o dan y pennawd hwn yw:

**Cyflawni safonau uchel wrth reoli'r amgylchedd.**

Mae'n amlwg y bydd gweithgareddau o dan y flaenoriaeth hon yn fwy manteisiol i blant a phobl ifanc nag i unrhyw garfan arall o'r boblogaeth, oherwydd mae ein gofal ni o'r amgylchedd yn dylanwadu ar y byd a etifeddir ganddynt.

69. Yr ail flaenoriaeth yw:

**Datblygu system drafnidiaeth gynaliadwy, wedi'i chydlynu'n well er mwyn cefnogi cymunedau lleol a helpu i greu economi lewyrchus.**

70. Mae nifer o dargedau sy'n rhan o'r flaenoriaeth hon yn uniongyrchol berthnasol i blant a phobl ifanc. Maent yn cynnwys:

*Sicrhau bod gan bob awdurdod lleol gynlluniau trafnidiaeth erbyn mis Awst 2000, a strategaethau bysiau erbyn 2003, a bod cyfleusterau ar gael yn rhwyddach i fwy o bobl a bod mwy o bobl yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus;*

*Gwella trafnidiaeth gyhoeddus a chymunedol ar gyfer grwpiau cymunedol trwy ddarparu 60% yn fwy o wasanaethau bws wedi'u sybsideiddio, sy'n angenrheidiol yn gymdeithasol, ehangu'r rhwydwaith bysiau, sicrhau y caiff pensiynwyr deithio am ddim ar y bysiau ac annog cynlluniau trafnidiaeth cymunedol erbyn 2002;*

*Gwella diogelwch ar y ffyrdd trwy ein Strategaeth Diogelwch Ffyrdd newydd a chreu cymdogaethau mwy diogel;*

*Cwblhau 70% o'r Rhwydwaith Beiciau Cenedlaethol erbyn 2003.*

71. Mae darpariaethau ar gyfer diogelwch ffyrdd, trafnidiaeth gyhoeddus a seiclo yn hollbwysig i blant a phobl ifanc. Yn ystod eu blynyddoedd cynharaf, trafnidiaeth gyhoeddus yw'r unig ffordd yn aml i'w cludo i gyfleusterau megis clinigau iechyd a chylchoedd chwarae neu i leoliadau llai ffurfiol megis y parc lleol. Mae gan ddiogelwch ffyrdd rôl allweddol hefyd wrth wneud yn siŵr fod y strydoedd yn ddiogel ar eu cyfer. Wrth iddynt dyfu'n hŷn, mae plant yn teithio wrth eu hunain. Gall darpariaeth seiclo un-pwrpas chwarae rhan bwysig, ond mae diogelwch ffyrdd yn dal i fod yn allweddol er mwyn eu hannog i seiclo a cherdded wrth deithio. Mae gwneud hyn yn fanteisiol i'r amgylchedd a'u hiechyd. Yn olaf, mae'r bobl ifanc hŷn yn dibynnu llawer ar drafnidiaeth gyhoeddus er mwyn cynnal eu bywydau cymdeithasol.

72. Mae trwch yr arian ar gyfer gwasanaethau trafnidiaeth lleol yn cael ei ddarparu drwy'r setliad refeniw. Yn ogystal, mae'r Cynulliad yn rhoi grant uniongyrchol i helpu i ddarparu **gwasanaethau bysiau sy'n angenrheidiol yn gymdeithasol**. Rhoddwyd £2.5 miliwn i awdurdodau lleol yn 1998-99, a chynyddwyd hyn i £5 miliwn ar gyfer 1999-2000 a 2000-2001. Rhoddir cymorth hefyd ar gyfer **Swyddog Trafnidiaeth Wledig Cymru** ac mae grant blynyddol o £250,000 ar gael i gynorthwyo **prosiectau trafnidiaeth gymunedol**. Mae'r ddau gynllun yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd er mwyn ceisio'u gwneud yn fwy effeithiol.

73. Eleni, am y tro cyntaf, rhoddodd y Cynulliad grant penodol o £3.6m i awdurdodau lleol ar gyfer gwaith **diogelwch ffyrdd**. Mae'r meini prawf yn cynnwys pwyslais ar fynd i'r afael â marwolaethau ac anafiadau difrifol ymhlith plant. Yn 1999-2000, cyflwynwyd cynllun peilot dros gyfnod o dair blynedd i gynorthwyo awdurdodau lleol ar gyfer **Llwybrau Diogel i'r Ysgol** o dan fecanwaith y Grant Trafnidiaeth. Rhoddwyd sicrwydd y byddai'r cynllun yn derbyn £0.5 miliwn y flwyddyn. Yn ystod y ddwy flynedd gyntaf dyrannwyd £0.8 a £1.4 miliwn ar ei gyfer. Pwrpas y cynllun yw annog plant ysgol i gerdded neu seiclo i'r ysgol, neu i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae'n rhaid i gynlluniau berthyn i'r ysgol neu'r gymuned a chyfrannu at strategaethau ardal ehangach ar gyfer cerdded a seiclo. Mae'r Grant Trafnidiaeth yn cynorthwyo **datblygiadau pecynnau trafnidiaeth integredig** yn ogystal. Mae'r rhain yn cynnwys buddsoddi i wella gwasanaethau bysiau a thrên, darparu cyfleusterau seiclo a gwella'r amgylchedd i gerddwyr.

**Helpu pobl leol, yn arbennig y rhai hynny sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, i ddatblygu cymunedau hyderus, gyda chartrefi gweddus, cyfleusterau lleol da ac amgylchedd o ansawdd uchel, sy'n anfygythiol a heb drosedd.**

74. Mae'r targedau'n cynnwys:

*Rhoi Cymunedau'n Gyntaf – gweithredu cymunedol i wella ein cymunedau mwyaf difreintiedig.*

*Gostwng cyfran y bobl sy'n bryderus ynghylch diogelwch ar y ffyrdd o dan lefel 1998 o 11% trwy gefnogi partneriaethau trosedd ac anhrefn lleol, y Rhaglen Lleihau Trosedd a strategaethau datblygu cymunedol eraill.*

*Lleihau'r temtasiwn i bobl ifanc ymwneud ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol trwy ddefnyddio £25* miliwn yn y Gronfa Partneriaeth Plant ac Ieuenctid i ddarparu gweithgareddau adeiladol.*

* cyllido dros gyfnod o 3 blynedd

75. Mae Gwell Cymru'n nodi'r flaenoriaeth y mae'r Cynulliad yn ymrwymedig iddi i fynd i'r afael â thlodi ac anfantais gymdeithasol ac i gau'r bwlch rhwng y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru a'r rhai mwyaf llewyrchus.

Mae'r Cynulliad yn ymrwymedig i fynd i'r afael â rhai o ffaeleddau rhaglenni adfywio blaenorol: diffyg cydlyniad rhwng gwahanol fentrau, anhawster i gymunedau gymryd rhan arweiniol, gormod o ffrydiau cyllid, hwb economaidd tymor-byr, ymrwymiad amheus gan gyfranogwyr allweddol a diffyg cyfranogiad gan gymunedau – nid yw ymdriniaeth sydyn wedi gweithio.

Mae rhaglen y Cynulliad **Rhoi Cymunedau'n Gyntaf**, a lansiwyd ar 31 Mawrth, yn gysyniad newydd o ran adfywio cymunedau yng Nghymru. Mae Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn cynnig ymagwedd ddiragnod sy'n seiliedig ar yr egwyddor y dylai adfywio ac adnewyddu cymunedau

ddiwallu anghenion a blaenoriaethau cymunedau. Anelir y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf at y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru; bydd yn golygu ymrwymiad hirdymor gan awdurdodau lleol, y Cynulliad ac asiantaethau allweddol eraill er mwyn hyrwyddo gwir bartneriaethau yn lleol fel y gellir rhoi'r cyfan ar waith. Bydd yn helpu cymunedau i arwain a datblygu cynaladwyedd.

Cychwynnwyd ar ymarfer cynhwysfawr, sy'n cynnwys ymgynghori a chyfranogi, sy'n ymwneud â datblygu polisïau. Yn ogystal, mae'r Cynulliad wedi trefnu sesiynau trafod ym mhob un o'r 22 ardal awdurdod lleol, a sefydlwyd nifer o grwpiau ffocws cymunedol i alluogi pobl ar lefel leol i gyfranogi a chyflwyno eu syniadau a'u pryderon. Yn dilyn y cam ymgynghorol cyntaf, bydd y Cynulliad yn ystyried trefniadau manylach ar gyfer y rhaglen, gan gynnwys dewis ardaloedd cymunedol i'w targedu. Bydd y gwaith hwn yn seiliedig yn rhannol ar ddangosyddion gwrthrychol o amddifadedd ar lefel wardiau ledled Cymru, ond bydd hefyd yn golygu ymgynghori ag awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill. Dylai argymhellion pendant ar gyfer y rhaglen fod yn barod erbyn dechrau'r hydref, fel y gellir ei lansio erbyn diwedd 2000.

76. Er nad yw cyfiawnder ieuenctid na throsedd ac anhrefn yn faterion a ddatganolwyd, mae gan y Cynulliad ddiddordeb mawr yn y ddau, Er mwyn i'r frwydr yn erbyn trosedd ac anhrefn fod yn effeithiol, mae angen iddi fod yn y brif ffrwd oddi mewn i ystod o bolisïau'r Cynulliad. Hefyd, mae tîm bychan o swyddogion yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r Swyddfa Gartref er mwyn cynorthwyo'r partneriaethau trosedd ac anhrefn ac asesu ceisiadau o Gymru yn ôl Cronfa Trosedd ac Anhrefn Cymru a Lloegr sydd â £400 miliwn (dros gyfnod o 4 blynedd). Pennaeth y gronfa yw Cyfarwyddwr Lleihau Trosedd Cymru, sy'n adrodd i'r Swyddfa Gartref ac i Gabinet y Cynulliad.

77. Mae'r Cyfarwyddwr Lleihau Trosedd yn gyfrifol hefyd am arolygiaeth y Cynulliad o'r timau troseddu ieuenctid (YOTau). Mae'r YOTau yn gyrff aml-asiantaethol, ac mae'r awdurdodau lleol, yr heddlu, a'r gwasanaethau profiannaeth ac iechyd i gyd yn gyfranogwyr statudol: mae llwyddiant y timau hyn yn dibynnu ar bolisïau cyson ar gyfer trin pobl ifanc a chyfraniadau ariannol rhesymol gan bob asiantaeth. Mae'n angenrheidiol cael cysylltiadau cryf rhwng timau troseddu ieuenctid a phartneriaethau trosedd ac anhrefn lleol. Mae gwaith y timau troseddu ieuenctid yn cael ei reoli gan gynlluniau cyfiawnder ieuenctid blynyddol (dan arweiniad awdurdodau lleol) ac mae angen i gynnwys y rhain fod yn gyson â'r polisïau a nodir yng nghynlluniau gwasanaethau plant y Gwasanaethau Cymdeithasol.

78. Mae rhaglenni camddefnyddio cyffuriau/alcohol/sylweddau yn uniongyrchol berthnasol i waith y timau troseddu ieuenctid. Mae gan YOTau gysylltiadau cryf, trwy gyfrwng eu hasiantaethau cyfansoddol, â gwasanaethau eraill i blant a phobl ifanc gan gynnwys, er enghraifft, gwasanaethau diogelu plant, gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal awdurdodau lleol, a phlant mewn agen sy'n cynnwys plant ag anableddau a/neu anawsterau dysgu a phlant â phroblemau iechyd meddwl. Mae YOTau o dan adain Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr. Cawsant gymorth gan y Gronfa Ddatblygu, sydd â £85 miliwn i'w ddyrannu, trwy gyfrwng arian a roddir i'r Bwrdd dros gyfnod o dair blynedd i hybu rhaglen y Llywodraeth o ddiwygiadau cyfiawnder ieuenctid. Mae Cymru wedi derbyn dros £5 miliwn o'r Gronfa ar gyfer amrywiaeth o

brosiectau gwahanol (e.e. cynnal mechnïaeth a chyfiawnder adferol), sy'n cael eu llunio a'u rhedeg yn bennaf gan bartneriaethau lleol.

## GWELL LLYWODRAETH, LLYWODRAETH SYMLACH

**79. Symleiddio'n gwaith a rhoi llawer mwy o bwyslais ar anghenion a barn ein partneriaid a'r cyhoedd, gan gynnwys grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n deg.**

Mae llywodraeth dda'n golygu gweithredu ar y cyd â phobl allweddol yn y gymdeithas, a gwrando ar bobl, yn enwedig y cyhoedd fel defnyddwyr y gwasanaethau. Mae hyn yr un mor wir am blant a phobl ifanc y gellir eu hannog i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau, gan ddatblygu'r gallu i wneud penderfyniadau cyfrifol a gwneud dewisiadau deallus, yn ogystal ag ymwybyddiaeth o fod yn gyd-berchnogion eu cymunedau a'r gwasanaethau a dderbyniant. Hefyd, mae ystyried barn plant a phobl ifanc wrth gynllunio gwasanaethau'n ffordd o sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cyflenwi'n effeithiol. Y targed priodol yn yr adran hon yw cynhyrchu'r fframwaith strategol hwn ar gyfer plant a phobl ifanc.

## ATODIAD 2

## Y PRIF BRYDERON A FYNEGWYD GAN BLANT A PHOBL IFANC YN YSTOD YMGYNGHORI YNGHYLCH YR YMAGWEDD STRATEGOL

1. Fel rhan o'r ymgynghori cychwynnol ynghylch y strategaeth, ceisiwyd barn plant a phobl ifanc yn uniongyrchol wrth gynnal 3 gweithdy yng Nghanolbarth, Gogledd a De Cymru yn 2000. Anelwyd at blant a phobl ifanc 11-18 oed. Comisiynwyd Grŵp Llywio Plant a Phobl Ifanc y Cynulliad i drefnu a chynnal y digwyddiadau. Mae'r Grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr etholedig o blith pobl ifanc, ac mae'n cael ei gefnogi gan Asiantaeth Ieuenctid Cymru, Plant yng Nghymru. ac Achub y Plant. Rhoddodd y Grŵp wahoddiad i blant a phobl ifanc fynychu'r digwyddiadau, trwy gyfrwng amrywiaeth eang o fudiadau, gan gynnwys clybiau ieuenctid ac ysgolion. Roedd y gweithdai'n seiliedig ar drafodaethau grŵp ac ymarferion rhyngweithiol. Hefyd, cynhaliodd y Grŵp weithdai ychwanegol ar gyfer cynrychiolwyr grwpiau lleiafrifol a difreintiedig. Isod, rhestrir y prif faterion a ddeilliodd o'r gweithdai.

2. Cyffuriau

- Gormod o sylw'n cael ei roi i'r mater; mae cyffuriau'n rhan naturiol o dyfu i fyny;
- Gall pwysau gan gymheiriaid beri i blant arbrofi â chyffuriau;
- Mae gwerthu cyffuriau'n broblem fawr ac mae'n digwydd yn aml yn yr ysgol;
- Dylai'r heddlu wneud mwy o ymdrech i ddal gwerthwyr cyffuriau;

3 Diffyg cyfleusterau

- Ym mhob ardal, roedd pobl ifanc heb ddigon i'w wneud (yn enwedig y rhai dros 14 oed);
- Hoffent fedru trefnu eu hunain a gwneud penderfyniadau yn hytrach na dilyn gorchmynion;
- Mae cost cyfleusterau i'r cyhoedd yn broblem;

4 Bwlio

- Mae'n dal i fod yn broblem gyffredin;
- Gall problemau ychwanegol ddeillio o'r modd y mae bwlio'r cael ei drin;
- Mae'n rhaid gwneud safiad yn erbyn bwlio;
- Gallai pwysau gan gymheiriaid beri i bobl ifanc fwlio eraill er mwyn cael eu derbyn;

5 Addysg

- Roedd yn berthnasol o hyd i'r rhai a oedd wedi gadael ysgol yn ogystal â'r rhai sy'n dal i fynychu ysgol;

- Roedd plant dan 14 oed o'r farn nad oedd arholiadau'n ddrwg ond bod gormod o bwyslais yn cael ei roi arnynt;
- Ambell waith nid oedd arholiadau'n berthnasol i'r pethau y mae pobl ifanc eisiau gwybod amdanynt;
- Nid yw'r setiau isaf yn derbyn y cymorth ychwanegol sydd ei angen arnynt;
- Credai llawer eu bod wedi manteisio ar ddosbarthiadau bach oherwydd bod athrawon â mwy o amser i wrando a chynnig y cymorth angenrheidiol;;
- Cafodd athrawon eu bychanu gan lawer;

6 **Cyfleoedd Gwaith**

- Cyfleoedd cyfyngedig yn arwain at deimladau o ansicrwydd (yn arbennig mewn ardaloedd gwledig);
- Yr angen am gymorth yn ystod y cyfnod ansicr wrth gyrraedd llawn oed;

7 **Rhyw a Beichiogrwydd ymhlith Merched yn eu Harddegau**

- Beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau oedd y mater a godwyd amlaf yn ystod yr ymgynghori;
- Yn ymwybodol o'r ffaith fod gan Gymru un o'r cyfraddau uchaf yn Ewrop;
- Addysg rhyw mewn ysgolion yn annigonol;
- Byddai'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn troi at ffrind neu frawd neu chwaer am gyngor ar y materion hyn cyn troi at eu rhieni;

8 **Hiliaeth**

- Yn ymwybodol o lefelau sylweddol o hiliaeth mewn cymdeithas a'r angen i fynd i'r afael â'r broblem;
- Elfennau o hiliaeth rhwng y Cymry a'r Saeson;

**Materion eraill**

- Yfed tan-oed – yn cael ei gysylltu'n aml â phobl ifanc heb ddim i'w wneud neu eisiau dianc rhag pwysau;
- Gwrthdaro â rhieni;
- Digartrefedd;
- Camdriniaeth.

# ATODIAD 3

## CANLYNIAD CYNADLEDDAU YMGYNGHOROL GYDAG YMARFERWYR

1 Digwyddodd yr ymgynghori cychwynnol ynghylch ymagwedd strategol tuag at wasanaethau plant ym mis Tachwedd 1999 pan gynhaliwyd cynadleddau yng Nghanolbarth, De a Gogledd Cymru. Nod y cynadleddau, a drefnwyd ar y cyd â Phlant yng Nghymru, oedd dechrau llunio polisi trwy geisio barn ystod eang o gynrychiolwyr o'r sectorau statudol, gwirfoddol a phreifat, gan gynnwys addysg, iechyd, a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r rhestr a ganlyn yn crynhoi'r prif sylwadau.

- Archwilio angen er mwyn cael sylfaen i'r ffocws;
- Cefnogi gwerthoedd Cytundeb y Cenhedloedd Unedig;
- Gwneud plant a phobl ifanc yn ffocws ar gyfer yr holl gynllunio polisi gan lywodraeth ganolog a lleol;
- Gwneud cynhwysiant cymdeithasol yn elfen sylfaenol, a meithrin dinasyddiaeth weithredol;
- Mynd i'r afael â'r anawsterau ynghylch cynnal gwasanaeth;
- Rhoi mwy o werth ar rieni a magu plant;
- Rhoi cyhoeddusrwydd i arferion da mewn gwaith aml-asiantaethol;
- Ystyried newid ffocws gweithgareddau cyllido;
- Cydnabod y dylid cael gwasanaethau cyffredinol sylfaenol, ond ni ddylid eu cyfyngu i ddiwallu anghenion y rhai a ddiffiniwyd fel pobl mewn angen;
- Sefydlu system o werthoedd i'w rhannu, a blaenoriaethau cyffredin ymhlith gwahanol asiantaethau;
- Rhoi llais â rôl gweithredol i blant a phobl ifanc trwy bartneriaeth â hwy a'u teuluoedd ar bob lefel ar gyfer pob gwasanaeth.